



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Y Gronfa Gofal Integredig

Canllawiau Refeniw, Cyfalaf a Dementia

2021-2022

Cefnogi Cymru Iachach: ein cynllun hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

CYNNWYS

PENNOD 1: CYFLWYNIAD A THROSOLWG	3
PENNOD 2: AMCANION A BLAENORIAETHAU	5
Integreiddio	5
Dyraniadau Blaenoriaeth	6
Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	10
Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia	11
Sefydliadau Gwerth Cymdeithasol a'r trydydd sector	12
Atal	13
Unigrwydd a bod yn ynysig yn gymdeithasol	14
Asesiad o'r Boblogaeth a Chyd-gynlluniau Ardal	15
Rhaglen gyfalaf y Gronfa - Cyd-destun Strategol	16
Egwyddorion Cyffredinol	17
Defnyddio'r Gronfa	19
Defnyddio cyfalaf y Gronfa	21
PENNOD 3: AMODAU	21
Cyllid Refeniw'r Gronfa	22
Cyllid Cyfalaf y Gronfa	24
Prif Raglen Gyfalaf	26
Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn	28
PENNOD 4: LLYWODRAETHIANT	30
Cytundeb Ysgrifenedig	31
Cynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa	32
Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa	34
Y Broses Ymgeisio am Gyllid Cyfalaf y Gronfa	35
Cyfathrebu	37
PENNOD 5: CYFLWYNO ADRODDIADAU I LYWODRAETH CYMRU	37
Adrodd ar Refeniw'r Gronfa	38
Adrodd ar Gyfalaf y Gronfa	38
Gwerthuso	39
Amserlenni Adrodd ar Refeniw'r Gronfa:	41
RHAGOR O WYBODAETH AC ATODIADAU	41

PENNOD 1: CYFLWYNIAD A THROSOLWG

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn darparu ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol sy'n dod â'r gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill at ei gilydd i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig yn effeithiol yng Nghymru. Eu diben yw gwella canlyniadau a llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalmwyr. Rhaid i'r byrddau sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.
2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo egwyddorion atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys hirdymor i helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio'n well ar gyfer llesiant ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol. Gan hynny, gall y Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) fod yn ffordd arwyddocaol o weithredu'r ffyrdd o weithio fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
3. Mae [Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) yn amlinellu gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Mae *Cymru Iachach* yn egluro'r disgwyliad mai byrddau partneriaeth rhanbarthol fydd yn gyrru'r trawsnewidiad hwn. Mae'r Gronfa yn fecanwaith i gefnogi darparu amrywiol ofynion y Ddeddf a helpu byrddau partneriaeth rhanbarthol i gyflawni'r weledigaeth sydd yn *Cymru Iachach*.
4. Er bod y fenter o dan y Rhaglen Lywodraethu i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2021, mae'r Gweinidogion wedi cytuno ar estyniad o 12 mis tan fis Mawrth 2022. Bydd hyn yn caniatáu amser i ddatblygu dull newydd o ddarparu adnoddau rhanbarthol yn barod ar gyfer mis Ebrill 2022. Mae cwmipas a graddfa adnoddau rhanbarthol yn y dyfodol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a bydd angen i'r Gweinidogion gytuno arnynt. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu maes o law.
5. Er mwyn darparu dilyniant, bydd amcanion y Gronfa a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio sydd wedi bod ar waith ers 2017-18 **yn parhau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22**. Fodd bynnag, bydd y buddsoddiad o £2 filiwn a glustnodwyd yn flaenorol ar gyfer darparu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) bellach yn cael ei newid i gefnogi grŵp blaenoriaeth newydd. Mae trefniadau ar wahân yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi rôl barhaus system WCCIS ledled Cymru a bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cael eu hysbysu ar wahân am y newid hwn a'r trefniadau ariannu amgen.
6. O fis Ebrill 2021 bydd y £2 filiwn hyn yn cael eu buddsoddi i gefnogi prosiectau a gomisiynir ar y cyd sy'n darparu llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, *Dim Drws Anghywir* ac yn unol â blaenoriaethau cyfredol y Gweinidog. Ceir rhagor o wybodaeth am y categori ariannu newydd hwn ar dudalen 7.

7. Yn y flwyddyn olaf hon bydd y Gronfa yn parhau i gefnogi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.
8. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol mewn perthynas ag elfennau refeniw a chyfalaf ynghylch amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa; amodau; gofynion llywodraethu; a threfniadau adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn nodi'r ystyriaethau a'r trefniadau allweddol y mae angen eu rhoi ar waith i ddod â rhaglen y Gronfa bresennol i ben yn effeithiol erbyn mis Mawrth 2022. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 158 -161.
9. Dylid darllen y canllwiau hyn ar y cyd â [Rhan 9, adran 169 y Canllawiau Statudol \(Trefniadau Partneriaeth\)](#) a'r [Cod Ymarfer a wnaed o dan Ran 2 adran 9\(1\) \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#) o'r Ddeddf.
10. Nod y Gronfa yw gyrru a galluogi gweithio integredig a chydweithredol rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol. Y bwriad yw helpu byrddau partneriaeth rhanbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau newydd a modelau cyflwyno gwasanaethau a fydd yn ategu egwyddorion sylfaenol **integreiddio ac atal**. Mae gwerthuso a dysgu wrth wraidd y Gronfa, ac mae'n hanfodol bod pob rhaglen neu brosiect dan y Gronfa yn cael eu cynllunio gyda hyn mewn golwg.
11. Mae tai yn chwarae rhan bwysig o ran iechyd a llesiant pobl. Pan gaiff tai eu hystyried a'u hintegreiddio'n briodol ag iechyd a gofal cymdeithasol gall fod o fudd sylweddol i bobl a'r gwasanaethau gofal iechyd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod mai tai yw'r llwyfan ar gyfer atal ac ar gyfer ymyriadau cynnar er mwyn i ofal cymdeithasol wneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy. Dyma'r diben y sefydlwyd rhaglen Gyfalaf y Gronfa ar ei gyfer: darparu tai a llety i gefnogi modelau gofal sy'n galluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol, neu adennill byw'n annibynnol drwy leoliadau gofal canolraddol, a darparu llety lleol i bobl sy'n agored i niwed a allai fel arall gael eu lleoli mewn lleoliadau yn bell oddi wrth deulu a ffrindiau, gan gynnwys y tu allan i'r sir a'r tu allan i'r wlad. Dyna pam mae pwyslais cryf ar ddefnyddio elfen gyfalaf y Gronfa i gefnogi ???. Dylai prosiectau a gefnogir gan gyfalaf y Gronfa leihau'r angen am dderbyniadau i'r ysbyty, gofal preswyl a lleoliadau y tu allan i'r sir/y wlad, drwy ddarparu llety arbenigol i bobl hŷn, neu bobl ag anghenion cymhleth yn ogystal â llety sydd wedi'i integreiddio â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, megis gofal sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned. Mae cyfle i ddefnyddio cyfalaf y Gronfa ochr yn ochr â ffynonellau eraill o fuddsoddi mewn seilwaith.
12. Mae Canllawiau Statudol yn nodi'r grwpiau a ganlyn fel meysydd integreiddio â blaenoriaeth, a rhaid i holl raglenni rhanbarthol y Gronfa fynd i'r afael â nhw'n gymesur, yn unol â'u hasesiadau poblogaethau rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:
 - Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
 - Pobl sydd ag anableddau dysgu;
 - Plant ag anghenion cymhleth; a

- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
13. Yn dilyn newidiadau a wnaed i'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 9 o'r Ddeddf, mae'r diffiniad o blant ag anghenion cymhleth wedi'i ddiwygio ac mae'n cynnwys yn awr:
- plant ag anableddau a/neu salwch
 - plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal
 - plant sydd angen gofal a chymorth
 - plant sydd ar gyrion gofal/yn wynebu risg o ddod yn rhai sy'n derbyn gofal
 - plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.
14. Ar gyfer y grwpiau blaenoriaeth hyn, mae'r gronfa'n anelu at ddod o hyd i fodelau ac ymagweddau cyflenwi gwasanaethau integredig newydd a fydd yn:
- galluogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi, gan osgoi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen ac oedi cyn rhyddhau;
 - galluogi teuluoedd i ddiwallu anghenion eu plant a'u helpu i aros gyda'i gilydd;
 - cynorthwyo gofalwyr yn eu rôl gofalu a'u galluogi i gynnal eu llesiant eu hunain;
 - cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer unigolion anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y 'pen uchaf' ac awtistiaeth;
 - cynnig cymorth yn gynnar ac atal anghenion rhag cynyddu; a
 - hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol yn ogystal ag atal iechyd meddwl gwael.

PENNOD 2: AMCANION A BLAENORIAETHAU

15. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried sut y gallant ddefnyddio'r Gronfa'n effeithiol i gyflawni egwyddorion amrywiol a gofynion penodol sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf, gan gynnwys:

Integreiddio

16. Bwriad y Gronfa yw cynorthwyo byrddau partneriaeth rhanbarthol wrth ddatblygu a phrofi modelau integredig newydd ar gyfer darparu iechyd a gofal. Bydd hyn yn cynnwys:
- **Gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu** - disgwylir i bartneriaid rhanbarthol weithio mewn ffordd gydweithredol a chydgyhyrchiol tuag at gynllunio, dylunio, profi a gwerthuso prosiectau'r Gronfa ar draws y rhanbarth, gyda'r bwriad o wella a phrif ffrydio modelau ac arferion integredig llwyddiannus.
 - **Gweithlu**- dylai prosiectau gynnwys ffocws clir ar ddatblygu'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r diwylliannau angenrheidiol a fydd yn cefnogi newid ac yn datblygu timau a gwasanaethau cyflenwi integredig effeithiol. Dylid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o

brosiectau lle datblygwyd timau integredig llwyddiannus i lywio a llunio arferion prif ffrwd.

- **Seilwaith**- dylai partneriaid ystyried sut gellir rhannu eu hadnoddau cyfun ehangach fel llety, systemau, seilwaith TG ac offer, a chyfrannu at gyflawni prosiectau'r Gronfa. Gellir defnyddio arian y Gronfa hefyd i gefnogi: costau rheoli prosiectau a rhaglenni; cymorth a datblygiad byrddau partneriaeth rhanbarthol; gweithgarwch comisiynu rhanbarthol; astudiaethau dichonoldeb; ymchwil a gwerthuso yn ogystal â chapasiti i gefnogi ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gwaith trydydd sector y byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Dyraniadau Blaenoriaeth

17. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddefnyddio'r Gronfa i gynorthwyo cynlluniau a gweithgareddau sy'n darparu dull integredig a chydweithredol effeithiol mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth y byrddau partneriaeth rhanbarthol ar gyfer integreiddio, fel a ganlyn:

Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;

Dylai'r Gronfa gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi, gan osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Dylid canolbwyntio'n gadarn ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel ac yn brydlon, ac ar atal pobl rhag mynd yn unig ac yn ynysig yn gymdeithasol. Gellir defnyddio cyfalaf y Gronfa i ariannu cynlluniau gofal ychwanegol a chynlluniau tai eraill newydd ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia:

[Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022](#)

Dylai prosiectau hefyd gefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau Gofal Dementia sydd wedi'u cyfleu ar wahân.

Pobl ag anableddau dysgu: Dylai'r Gronfa ategu agweddau iechyd a gofal cymdeithasol y rhaglen Anableddau Dysgu: Gwella Bywydau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn rai cynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth allweddol - lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella integreiddio yn y gymdeithas a gwella systemau cynllunio ac ariannu. Yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfnod adfer, dylai'r Gronfa hefyd fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar bobl ag anableddau dysgu, gan ystyried y camau gweithredu wedi'u hail-ganolbwyntio o dan y Rhaglen Gwella Bywydau, sydd i'w cyhoeddi'n fuan. Yn ogystal, wrth gomisiynu llety byw'n annibynnol i bobl ag anableddau dysgu a defnyddio cyfalaf y Gronfa, dylid dilyn y canllawiau *Commissioning accommodation and support for a good life for people with a learning disability* a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn 2019:

[Canllawiau Anabledd Dysgu - y Bwrdd Comisiynu 2019 \(Saesneg yn unig\)](#)

Plant sydd ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch:

Mae paragraff 13 yn nodi'r diffiniad o blant ag anghenion cymhleth.

Dylai teuluoedd sydd â phlant ag amrywiaeth cymhleth o anghenion gael gofal a chymorth cyfannol, di-dor sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn eu golwg nhw, gan gynnwys llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol, a hynny'n unol ag argymhellion *Dim Drws Anghywir*[1] Comisiynydd Plant Cymru a'i hadroddiadau blynyddol.

Gall prosiectau yn y categori hwn gynnwys cymorth i blant a theuluoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau asesu niwroddatblygiadol ac ar gyfer cymorth ôl-ddiagnostig lle derbyniwyd diagnosis ac ar gyfer ymyriadau therapiwtig amlddisgyblaethol sy'n diwallu anghenion y plentyn orau.

Ni ddylid tynnu cyllid ar gyfer y grŵp hwn o blant o'r dyraniad i gefnogi plant ar gyrion gofal/mewn perygl o dderbyn gofal, er y disgwylir y bydd y ddau ddyraniad ar gyfer plant yn ategu ei gilydd.

Gellir defnyddio elfen ddisgresiynol cyllid cyfalaf y Gronfa i gefnogi addasiadau tai i blant ag anghenion cymhleth lle mae cost yr addasiad yn fwy na'r terfyn uchaf o £36,000 ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol.

Llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf i atal dwysáu/hwyluso dadddwysáu o ofal diogel neu ofal cleifion mewnol

Mae hon yn flaenoriaeth newydd ar gyfer 2021-22.

Dylai teuluoedd sydd â phlant ag amrywiaeth cymhleth o anghenion gael gofal a chymorth cyfannol, di-dor sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn eu golwg nhw, gan gynnwys llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae hyn yn unol ag argymhellion *Dim Drws Anghywir*¹ Comisiynydd Plant Cymru a'i hadroddiadau blynyddol.

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn amcangyfrif bod tua 200 o blant ledled Cymru sydd angen gofal a chymorth preswyl ac arbenigol i ddiwallu angen mawr. 'Diffinnir angen 'pen uchaf' fel anghenion emosiynol ac ymddygiadol difrifol a allai fod â diagnosis sy'n gofyn am ymyriadau therapiwtig dwys neu beidio. Byddai'r math hwn o ddarpariaeth breswyl yn cael ei gynllunio i osgoi dwysáu'r angen a allai arwain at leoliad lles diogel neu leoliad iechyd meddwl cleifion mewnol haen 4. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel darpariaeth 'cam i lawr' i alluogi rhyddhau o leoliad diogel neu haen 4 a gallai helpu i osgoi lleoliadau y tu allan i'r sir neu'r tu allan i Gymru.

Y ffordd orau o ddiwallu'r angen pen uchaf hwn yw drwy ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig a gomisiynir ar y cyd gyda mewnbwn disgyblaethau eraill, yn ôl yr angen, i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae'r Comisiynydd Plant hefyd wedi galw am

Felly, mae £2 filiwn o refeniw'r Gronfa ar gael yn 2021-22 i gefnogi ateb rhanbarthol integredig ar gyfer y math hwn o lety a bydd yn galluogi rhanbarthau i ddatblygu a phrofi modelau darparu newydd. Bwriad yr arian yw ysgogi datblygu'r math hwn o wasanaeth yn rhanbarthol a gwahoddir Datganiadau o Ddiddordeb o ranbarthau ym mis Ionawr. Bydd angen i Ddatganiadau o Ddiddordeb nodi cynlluniau ar gyfer cynnal y gwasanaeth ar ôl blwyddyn gan gynnwys ymrwymiad i gadw'r gwasanaeth yn unol â'r cynnig gwreiddiol.

Gan ragweld y ceisir datganiadau o ddiddordeb, dylai rhanbarthau ymgysgu â'r canllawiau a baratowyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar gomisiynu'r gwasanaethau hyn sydd i'w gweld yma::

[Canllawiau - Comisiynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc ag anghenion dwys \(Saesneg yn unig\)](#)

Disgwylir y bydd cyfalaf y Gronfa yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu llety lleol i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol ar y pen uchaf ac y bydd rhanbarthau'n gallu dangos sut mae hyn wedi lleihau nifer a chost lleoliadau y tu allan i'r sir/y tu allan i'r wlad. Dylai rhanbarthau flaenoriaethu cyllid cyfalaf i ddiwallu'r angen penodol hwn yn eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Ceir canllawiau pellach ar ddefnyddio cyllid cyfalaf ym mharagraffau 67 a 91.

Nid yw'r swm o £2m a glustnodwyd ar gyfer prosiectau llety diogel yn atal pob Bwrdd Partneriaeth Lleol rhag buddsoddi rhywfaint o'u dyraniad o'r £15m ar gyfer plant sydd ar gwrdd gofal neu sv'n derbyn gofal rhag buddsoddi vn v mathau hyn o wasanaethau

Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc:

Er y cydnabyddir y gall gofalwyr elwa'n **anuniongyrchol** o'r cymorth a ddarperir i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, dylai rhaglenni ICF hefyd gynnwys prosiectau sy'n rhoi cymorth **uniongyrchol** i ofalwyr, gyda'r nod o wella eu llesiant eu hunain. Nodir meysydd eraill lle gall prosiectau ddarparu cymorth i ofalwyr unigol, o unrhyw oedran, gan y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr. Dylai prosiectau gefnogi cyflawni'r amcanion strategol hyn.

Y tair blaenoriaeth yw:

- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu – rhaid i bob gofalwr gael seibiant rhesymol o'i rôl gofalu i'w galluogi i gynnal ei allu i ofalu, ac i gael bywyd y tu hwnt i ofalu
 - Nodi a chydabod gofalwyr – yr angen i wella cydnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl, a sicrhau y gallant gael gafael ar y cymorth angenrheidiol; a
 - Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth – sicrhau bod gofalwyr yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth priodol ble a phryd y mae ei angen arnynt.
- Cliciwch [yma i gael rhagor o wybodaeth am y tair blaenoriaeth.](#)

Plant sydd ar gyrion gofal/sy'n wynebu risg o ddod yn blant sy'n derbyn gofal, sydd mewn gofal neu sy'n cael eu mabwysiadu:

Dylid defnyddio'r Gronfa i weithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ac atal yr angen i blant orfod derbyn gofal. Bydd yn ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol weithio o fewn cyd-destun strategol a rennir sy'n cynnwys (ac sy'n gweithio tuag at) cyflawni blaenoriaethau gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Dulliau creadigol ac integredig o weithredu a chyflwyno gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd sy'n mynd drwy gyfnod anodd i'w helpu i aros gyda'i gilydd ac sy'n atal yn ddiogel yr angen i flaenoriaethu gofal. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatblygu dulliau rhanbarthol o gefnogi teuluoedd, gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r Sector Gwerth Cymdeithasol i gyd yn chwarae rolau allweddol.

Gall dulliau o'r fath adeiladu ar y modelau y profwyd yn barod eu bod yn gweithio'n dda. Er enghraifft, gwasanaethau ail-uno teuluol i gefnogi rhieni y mae eu plant wedi cael eu cymryd oddi wrthynt, fel eu bod yn cael y cyfle i adfer, ailadeiladu a magu mewn ffordd gadarnhaol a chyfrifol. Mae Cynadleddau Grŵp Teulu hefyd yn llwyddiannus o ran osgoi'r angen i blant orfod derbyn gofal, gan roi cyfle i deuluoedd ar gyrion gofal gydgyhyrchu cynllun ar gyfer gofalu am eu plentyn/plant i alluogi'r teulu i aros gyda'i gilydd.

Dylid canolbwyntio'n glir ar ddarparu cymorth therapiwtig i blant ar gyrion gofal a phlant sydd wedi bod mewn gofal, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu, gan leihau'r angen am fathau mwy dwys o gymorth. Er enghraifft, datblygu darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth / ymddygiad heriol sydd mewn perygl o orfod mynd i lety diogel.

18. Rhaid lledaenu'r gwariant ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio i sicrhau bod yr holl grwpiau agored i niwed hyn yn gallu elwa'n llawn ar y gronfa.

Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

19. Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn parhau i gael ei gefnogi drwy'r Gronfa yn 2021-22.¹ Mae cyllid refeniw'r Gronfa a ddyrennir i gefnogi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi'i 'neilltuo'. Gall rhanbarthau drosglwyddo arian ychwanegol i'r dyraniad hwn, ar yr amod bod Arweinydd Cyffredinol Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a Llywodraeth Cymru yn cytuno â hynny. Ni ellir defnyddio cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y

¹ Mae Gweinidogion wedi ymrwymo i barhau i ddarparu adnoddau rheolaidd ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (£3m y flwyddyn) y tu hwnt i 2021 i gefnogi gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth ar ôl cwblhau adolygiad o'r galw a chapasiti. Mae'r Gwasanaeth yn darparu gwasanaethau i oedolion ac i rieni a gofalwyr, ond nid i blant yn uniongyrchol.

Gronfa at ddibenion eraill. Mae'n bosibl y bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn dymuno cefnogi prosiectau ar gyfer plant ag awtistiaeth, o dan y grŵp blaenoriaeth plant ag anghenion cymhleth, gan nad yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu cymorth uniongyrchol i blant.

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

20. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 ar 14 Chwefror 2018. Ar ôl lansio'r Cynllun, gofynnwyd i fyrddau partneriaeth rhanbarthol edrych yn fanwl ar wasanaethau dementia a llwybrau gofal sydd eisoes yn bodoli ym mhob ardal, gan ddatblygu gwasanaethau i roi sylw i unrhyw fylchau a welwyd, yn unol â'r cynllun dementia. Ymysg prif themâu'r cynllun hwn mae galluogi pobl sy'n byw â dementia i barhau i fod yn annibynnol, yn unol â phrif amcan y Gronfa.
21. Unwaith eto, dyrannwyd arian ychwanegol i'r Gronfa i gefnogi prosiectau newydd a gwasanaethau i bobl â dementia, neu i ychwanegu at brosiectau sy'n bodoli'n barod. Dylai'r prosiectau hyn nodi sut maent yn cysylltu â gwasanaethau ehangach ar gyfer y boblogaeth oedrannus a dylid hefyd ystyried rôl y sector tai a'r sector gwerth cymdeithasol wrth gefnogi'r gwaith hwn.
22. Rhaid i gynigion ddangos mynediad cyfartal ar draws y boblogaeth gyda chanlyniadau sy'n ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig. Bydd ceisiadau ariannol am unrhyw gynllun/gweithgarwch sy'n darparu canlyniadau y gellir eu mesur ac sy'n mynd law yn llaw â'r Camau Gweithredu ar Ddementia sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun Gweithredu, yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau unigol yn erbyn y canlyniadau canlynol:
 - Bydd unigolion yn deall y camau y gallant eu cymryd i leihau'r risg o gael dementia neu i ohirio ei ddechrau.
 - Mae'r boblogaeth ehangach yn deall yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw gyda dementia ac yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i'w helpu nhw.
 - Mae pobl yn ymwybodol o arwyddion cynnar dementia; pwysigrwydd diagnosis amserol; ac yn gwybod ble i fynd am gymorth.
 - Mae pobl yn cael diagnosis yn gynt, sydd felly'n eu galluogi i gynllunio at y dyfodol a chael gafael ar gymorth a gofal cynnar os oes angen.
 - Mae'r rhai sydd wedi cael diagnosis o ddementia a'u gofalwyr a'u teuluoedd yn gallu derbyn gofal a chymorth hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
 - Mae gwaith ymchwil yn cael cefnogaeth er mwyn ein helpu i ddeall yn well achosion dementia a sut i reoli'r clefyd, ac yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, i fod yn gyd-ymchwilwyr.
 - Mae gan staff y sgiliau i'w helpu i adnabod pobl â dementia a theimlo'n ddigon hyderus a chymwys i gefnogi anghenion yr unigolyn ar ôl cael diagnosis.Dylai prosiectau hefyd gefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau Gofal Dementia sydd wedi'u cyfleu i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar wahân.

23. Daw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia i ben yn 2022, ond bydd y gwerthusiad parhaus sy'n cael ei gynnal yn llywio cynnwys cynlluniau gweithredu yn y dyfodol a'i ganlyniadau dilynol. Bydd angen i brosiectau y rhagwelir y byddant yn parhau ar ôl 2022 fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau perthnasol.
24. Dylai rhaglenni cyfalaf roi blaenoriaeth i ehangu'r stoc o lety arbenigol (fel Gofal Ychwanegol a chynlluniau eraill sy'n ystyriol o ddementia) er mwyn galluogi pobl â dementia i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain cyhyd ag y bo modd.
25. Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno diweddariadau pellach yn y dyfodol ynghylch defnyddio dyraniadau sydd wedi'u clustnodi, fel y bo'n briodol.

Sefydliadau Gwerth Cymdeithasol a'r trydydd sector


26. Mae'r Gronfa yn ysgogiad pwysig i wella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu. Rhaid i'r sector gwerth cymdeithasol/trydydd sector fod yn bartner strategol allweddol wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau'r Gronfa.
27. Dan Adran 16 o'r Ddeddf mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad sefydliadau gwerth cymdeithasol yn eu hardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau cyflawni amgen hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector.
28. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried sut gellir defnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd i hyrwyddo datblygiad modelau cyflawni amgen mewn cysylltiad â'r meysydd sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio a nodir uchod.
29. Mae'r ddyletswydd i hyrwyddo sefydliadau gwerth cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhagweithiol i annog pobl i gymryd rhan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae canllawiau a manylion pellach ynglŷn ag adran 16 ar gael yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 - Swyddogaethau Cyffredinol](#)
30. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 hefyd yn gosod dyletswydd ar fyrddau partneriaeth rhanbarthol i sefydlu fforymau gwerth cymdeithasol rhanbarthol. Yn 2018 lansiodd Llywodraeth Cymru y [Pecyn Cymorth Gwerth Cymdeithasol](#) i gynorthwyo'r gwaith o hyrwyddo gwerth cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth a datblygu Fforymau Gwerth Cymdeithasol. Bydd gan y fforymau hyn rôl allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau'r Gronfa. Disgwylir i fyrddau partneriaethau rhanbarthol ymgysylltu â'r fforymau gwerth cymdeithasol er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid gwerth cymdeithasol a'r trydydd sector yn gallu llunio a dylanwadu ar brosiectau a gwasanaethau gan ddefnyddio egwyddorion cyd-gynhyrchu fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer.

31. Diffinnir 'Sector Gwerth Cymdeithasol' yng nghyd-destun adran 16 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sy'n cyfeirio'n benodol at fentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Ceir rhagor o wybodaeth ddefnyddiol yn yr adroddiad a noddir gan Lywodraeth Cymru, 'Helpu Comisiynwyr a Chaffaelwyr Gofal i Hyrwyddo Modelau Gwerth Cymdeithasol', a gyhoeddwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ym mis Rhagfyr 2020: [Modelau Gwerth Cymdeithasol](#).
32. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y buddsoddiad cynyddol drwy'r Gronfa mewn prosiectau gwerth cymdeithasol/trydydd sector a modelau darparu gwasanaethau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, yn seiliedig ar fuddsoddiad hyd yma, ledled Cymru dim ond 12% o gyllid refeniw'r Gronfa sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sector pwysig hwn. Mae hyn yn brin o'r 20% y gobeithiwyd ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2021. Felly, disgwylir i fyrddau partneriaeth rhanbarthol barhau i ddatblygu prosiectau a gwasanaethau drwy'r Gronfa sy'n cefnogi'r sector hwn gan sicrhau, erbyn diwedd y rhaglen, erbyn mis Mawrth 2022, bod o leiaf 20% o'u gwariant refeniw ar brosiectau a gwasanaethau gwerth cymdeithasol/trydydd sector.
33. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (Atodiad i'r Cynllun Trydydd Sector) yn nodi'r egwyddorion allweddol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â nhw wrth gyllido sefydliadau'r trydydd sector. Disgwylir hefyd y bydd awdurdodau lleol Cymru, a byrddau iechyd lleol pan fo'n berthnasol, yn gydymffurfio â'r egwyddorion hyn ar ffurf Compactau Trydydd Sector lleol.
34. Gall [Cynllun Trydydd Sector a chod ymarfer](#) Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol ar ba drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau bod y sector gwerth cymdeithasol yn gallu chwarae rhan lawn a gweithredol wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno prosiectau'r Gronfa. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o sut gellir darparu cyllid refeniw yn effeithiol rhag i sefydliadau gwerth cymdeithasol fod dan anfantais, fel darparu ar gyfer taliadau uwch lle mae tystiolaeth o angen wedi ei sefydlu'n glir.

Atal

35. Mae angen canolbwyntio ar atal ac ar ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y dyfodol. Mae Adran 15 o'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu, neu drefnu i rywun ddarparu, gwasanaethau ataliol i gyflawni dibenion amrywiol a nodir yn is-adran 15(2) y Ddeddf, gan gynnwys atal neu oedi datblygiad anghenion gofal a chymorth. Rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw i bwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn yn eu hardaloedd. Mae canllawiau a manylion pellach ynglŷn ag adran 15 i'w gweld yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 - Swyddogaethau Cyffredinol. Mae Atodiad A y canllawiau hyn yn dangos y rhestr lawn o ddibenion sydd wedi eu cynnwys yn adran 15(2).

36. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ddefnyddio'r Gronfa i gyfrannu at gyflawni'r gofynion i ddarparu gwasanaethau ataliol mewn cysylltiad yn benodol â'r meysydd sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio, a nodir ym mharagraffau 12-14. Gall gweithgarwch atal ddigwydd ar draws y continwwm angen, yn amrywio o gymorth a chynghor ar gamau cynnar i weithgarwch dad-ddwysáu. Dylai rhaglenni'r Gronfa gynnwys amrywiaeth o weithgarwch wedi ei ledaenu ar draws yr amrywiaeth o ddulliau atal, gyda'r bwriad o symud fwyfwy tuag at brosiectau 'yn groes i'r llif' neu atal yn gynnar. Mae hyn yn cynnwys darparu llety arbenigol a lleoliadau gofal canolraddol drwy'r rhaglen gyfalaf. Mae'r diagram isod yn amlinellu'r gwahanol lefelau o weithgarwch ataliol lle gellir buddsoddi cyllid y Gronfa.



37. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol fod yn arloesol yn eu hymagwedd at wasanaethau ataliol, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian ac ymgysylltu'n rhagweithiol â dinasyddion, y trydydd sector, sefydliadau gwerth cymdeithasol a darparwyr eraill i ddiwallu'r angen a nodwyd.

Unigrwydd a bod yn ynysig yn gymdeithasol

38. Yn gynyddol, rydym yn ymwybodol o effaith niweidiol unigrwydd a bod yn ynysig yn gymdeithasol ar les corfforol a meddyliol pobl. Roedd cyhoeddi "Cysylltu Cymunedau" ym mis Chwefror 2020 yn gam cyntaf pwysig i Gymru o ran mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol; sy'n nodi ein pedair blaenoriaeth allweddol:

- cynyddu a hyrwyddo cyfleoedd i bobl gysylltu
- sefydlu seilwaith cymunedol sy'n cefnogi cymunedau sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd
- sefydlu cymunedau cydlynol chefnogol
- meithrin ymwybyddiaeth a hyrwyddo agweddau cadarnhaol.

39. Dyma ddolen at y ddogfen [Cysylltu Cymunedau](#).

40. Nodir yn *Cymru Iachach*:

Bydd dull holistaidd o ddarparu iechyd a llesiant yn mynd tu hwnt i ddarparu gwasanaethau cymorth yn y cartref neu mewn gofal preswyl. Er enghraifft, bydd gweithgareddau cymunedol a chysylltiad rheolaidd â ffrindiau a chymdogion yn helpu pobl i gadw'n brysur, lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, a chynnal iechyd meddyliol a chorfforol. Ar gyfer nifer o bobl, bydd y cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu gan wahanol bobl yn cydweithio'n agos â'i gilydd – gofalwyr proffesiynol a di-dâl, teulu a ffrindiau, gwirfoddolwyr cymunedol, cymdeithasau tai a chymdogion, yn ogystal â'u hunain. Bydd trefn system gyfan yn galluogi'r holl bobl a thimau hyn i gydweithio, gan ddefnyddio'r holl asedau cymunedol, ar sail sylfaen gadarn o werthoedd cyffredin, rhannu gwybodaeth a pharch o'r ddwy ochr.

41. Dylai cynlluniau a gweithgareddau'r Gronfa geisio cefnogi'r agenda bwysig hon lle bo modd ar draws yr holl feysydd blaenoriaeth. Bydd gan ragnodi cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae hefyd yn hyn o beth er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn a i wella canlyniadau llesiant pobl yn ogystal â lleihau unigrwydd cymdeithasol.

Asesiad o'r Boblogaeth a Chyd-gynlluniau Ardal

42. Mae angen i bob cynllunio effeithiol fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ôl adran 14 o'r Ddeddf, gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys asesiad o lefel ac ystod y gwasanaethau sydd eu hangen i sicrhau camau ataliol. Mae'r trefniadau partneriaeth a roddir ar waith o dan adran 166 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer llunio adroddiadau asesiadau poblogaeth cyfunol yn ardaloedd y byrddau iechyd. Mae canllawiau a manylion pellach ynglŷn ag adran 14 ar gael yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2 - Swyddogaethau Cyffredinol](#). Diben yr asesiadau hyn yw darparu sylfaen o dystiolaeth glir a phenodol i lywio amryw o benderfyniadau ar gynllunio a gweithredu.
43. Mae amseriad pob ymarfer asesu llawn yn cyd-fynd â chylchoedd etholiad llywodraeth leol. Cwblhawyd yr asesiadau cyfredol yn 2017, gyda'r nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2022. Ar gyfer eu hasesiadau newydd, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol weithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd ar yr un pryd yn datblygu eu hasesiadau llesiant eu hunain. Bydd cyfuno adnoddau, ac ymgysylltu allanol helaeth, yn creu gwell dealltwriaeth o'r amgylchiadau cenedlaethol dros nifer o sectorau ac yn gwella cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag anghenion pobl. Serch hynny, mae'n ofynnol i bob bwrdd partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod canfyddiadau eu hasesiad yn addas i'r diben a dylid eu hadolygu o leiaf unwaith yn ystod y cylch hwn. Yng ngoleuni hyn a'r angen i ddeall effaith Covid-19 yn llawn, ailedrychodd byrddau partneriaeth rhanbarthol ar eu canfyddiadau blaenorol a threfnwyd eu bod ar gael i'r cyhoedd ym mis Hydref 2020 fel rhan o'r gofynion adrodd blynyddol.
44. Mae Adran 14A o'r Ddeddf wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio cynllun ardal ar y cyd. Rhaid i'r cynlluniau ardal ar y cyd hyn roi disgrifiad o amrywiaeth a lefel y gwasanaethau y bwriedir eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn

adroddiadau asesu'r boblogaeth. Rhaid i gynlluniau ardal ar y cyd ganolbwyntio ar y gwasanaethau integredig a gynllunnir mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn adroddiad cyfun yr asesiad o'r boblogaeth.

45. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol hefyd, o dan adran 75 o'r Ddeddf, i gymryd camau i sicrhau llety digonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Lle bo'n briodol, gall awdurdodau lleol ystyried dulliau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau arbenigol. Bydd asesiadau digonolrwydd yn helpu i lywio cynlluniau comisiynu lleoliadau lleol a rhanbarthol, a fydd yn eu tro yn cyfrannu at y cynlluniau ardal ar y cyd.
46. Rhaid i'r holl brosiectau a gweithgarwch y defnyddir y Gronfa ar eu cyfer fynd i'r afael ag anghenion gofal a chymorth a nodir mewn adroddiad asesu poblogaeth cyfunol gan ranbarth a chefnogi'r gwaith o gyflwyno cynllun ardal ar y cyd. Yn benodol, dylai rhanbarthau ystyried eu hasesiad diweddaraf o angen a myfyrio ar effaith y grwpiau yr effeithir arnynt fwyaf a sut y gallai fod angen i wasanaethau newid er mwyn diwallu anghenion yn yr amgylchiadau newydd yn dilyn pandemig diweddar Covid-19.

Rhaglen Gyfalaf y Gronfa - Cyd-destun Strategol

47. Mae'r rhaglen gyfalaf y Gronfa yn rhaglen sy'n cael ei harwain gan dai. Nod rhaglen gyfalaf y Gronfa yw darparu mwy o dai a llety i bobl sy'n agored i niwed a nodir yn y meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio. Mae'n cefnogi model gofal sy'n hyrwyddo byw'n annibynnol mewn llety lleol a phriodol i bobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth.
48. Os byddwn yn llwyddo i gyflawni hyn, byddai'n golygu:
 - llai neu ddim lleoliadau y tu allan i'r sir/y tu allan i'r wlad
 - pobl hŷn a phobl ag anableddau yn gallu byw'n annibynnol am gyfnod hirach
 - gostyngiad yn y galw am welyau ysbyty a gofal preswyl
 - mwy o gyfleusterau lleol
49. Mae'r cyd-destun strategol i hyn yn bwysig a bydd angen i ranbarthau adolygu sut mae prosiectau arfaethedig yn cyflawni'r amcan o hyrwyddo byw'n annibynnol mewn llety lleol a llety o faint priodol.
50. Yn y cyd-destun hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhanbarth ddatblygu Cynllun ac Amcanion Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig sy'n nodi beth yw eu blaenoriaethau dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cynorthwyo ac yn rhoi sail i fyrddau partneriaeth rhanbarthol wneud penderfyniadau ynghylch pa brosiectau i'w cefnogi. Bydd hyn yn seiliedig ar:
 - y cyflenwad presennol (nifer yr unedau llety ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth a disgrifiad byr);
 - yr anghenion nad ydynt wedi'u diwallu sy'n ofynnol (nifer yr unedau ar gyfer pob grŵp blaenoriaeth dros y 3-5 mlynedd nesaf, i ymateb i bwysau demograffig; newidiadau ym

mhroffil iechyd y boblogaeth; diddymu'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir/gwlad, lleoliadau tu allan i ardal leol unigolyn o fewn y sir gartref, a lleoliadau amhriodol eraill; a newid mewn modelau gofal, ee newid o ofal preswyl i fyw'n annibynnol);


- y prosiectau a gynlluniwyd dros y 3-5 mlynedd ddilynol a fydd yn diwallu'r angen sydd heb ei ddiwallu.

51. Bydd angen i Gynllun ac Amcanion Rhaglen y Gronfa ystyried y gofynion ehangach ar gyfer cynhyrchu adroddiadau asesu poblogaeth cyfunol ar lefel ranbarthol, yn ogystal â Chynlluniau Ardal. Dylid defnyddio dyraniad cyfalaf y Gronfa mewn rhanbarth i ddiwallu anghenion tai'r grwpiau o bobl a nodwyd mewn asesiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen deialog barhaus rhwng byrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac adrannau tai yn ogystal â darparwyr tai a chymdeithasau sy'n gweithredu yn y rhanbarth.
52. Rhaid i ranbarthau ddarparu eu Cynllun Rhaglen a'u Hamcanion cyn diwedd mis Mawrth 2021 i sicrhau ei fod yn llywio'r cynigion ar gyfer cyllid sydd ar gael yn 2021-22. Ni fydd unrhyw brosiectau Cyfalaf newydd yn cael eu cymeradwyo nes bod Cynllun ac Amcanion y Rhaglen wedi'u hasesu gan dîm Cyfalaf y Gronfa a'i bod yn amlwg bod prosiectau arfaethedig newydd yn ymateb i angen. Nid yw hyn yn effeithio ar brosiectau ym Mhrif Gynllun Cyfalaf rhanbarth sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.
53. Mater i fyrddau partneriaeth rhanbarthol yw penderfynu pa brosiectau sy'n cael blaenoriaeth yn unol â'u dyletswyddau statudol. Fodd bynnag, os nad yw cynnig prosiect yn ymateb i angen am lety nas diwallwyd a nodir yng Nghynllun ac Amcanion y Rhaglen, gall Llywodraeth Cymru benderfynu peidio â chefnogi'r cynnig drwy raglen gyfalaf y Gronfa.

Egwyddorion Cyffredinol

54. Dylai'r Gronfa helpu i gyflawni canlyniadau sy'n adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalmwy'r mae angen cymorth arnynt, eu disgwyl er mwyn byw bywydau llawn boddhad, fel y nodir yn y [Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol](#).
55. Mae [Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) yn pennu gweledigaeth glir i drawsnewid y system iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddarparu gwasanaethau gofal integredig a di-dor. Mae gan fyrddau partneriaeth rhanbarthol rôl ganolog yn hyn drwy ddod â gwasanaethau iechyd, cymdeithasol, y trydydd sector a'r sector annibynnol at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau gofal integredig effeithiol ac effeithlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod Cronfa Trawsnewid sy'n werth £100 miliwn ar gael dros ddwy flynedd drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol i ategu'r agenda hon.

56. Rydym hefyd eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fod yn actif ac yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau. Gall rhaglen gyfalaf y Gronfa, sy'n werth £145 miliwn dros dair blynedd, chwarae rhan arwyddocaol wrth ddarparu seilwaith i gefnogi'r amcan hwn.
57. Mae Tai a Gofal Cymdeithasol yn feysydd blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb* sy'n cynnwys cam gweithredu penodol i '*cymell darparwyr tai i adeiladu cartrefi sy'n ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach*'.
58. Sefydlwyd y Gronfa i brofi modelau gofal integredig arloesol, a gall hefyd helpu i wireddu uchelgais *Cymru Iachach*. Yn y cyd-destun ehangach hwn, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gyflwyno'r Gronfa ar draws Cymru gan wneud cysylltiadau â'r Gronfa Trawsnewid i wella, cyflymu neu uwchraddio prosiectau llwyddiannus.
59. Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg lefel uchel o'r cysylltiadau rhwng y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), *Cymru Iachach*, Cynlluniau Ardal Leol, y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Dylai cynlluniau buddsoddi a chynigion prosiect allu dangos 'edefyn aur' sy'n cysylltu prosiectau yn ôl i gynlluniau Ardal, *Cymru Iachach* a'r Ddeddf. Mae *Cymru Iachach* yn nodi ei 'nod pedwarplyg' fel syniad canolog i helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut rydym eisiau i'n system ddatblygu a sut byddwn ni'n blaenoriaethu newid. Bydd y Nod Pedwarplyg hefyd yn darparu fframwaith i adrodd ar gynnydd tuag at wireddu'r weledigaeth yn y dyfodol, sef y pedair thema;
- Gwellu iechyd a llesiant y boblogaeth;
 - Gwellu ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
 - Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol; a
 - Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.



60. Mae *Cymru Iachach* hefyd yn nodi 10 egwyddor cynllunio cenedlaethol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau integredig; caiff y rhai eu hadlewyrchu yn y canllawiau a gyhoeddwyd ar y Gronfa Trawsnewid. Dylai'r broses o ddatblygu a chyflwyno holl raglenni a phrosiectau'r Gronfa roi sylw dyladwy a chael eu llywio gan y Nod Pedwarplyg a'r 10 egwyddor cynllunio a restrir isod.
61. Gydag atal, cydweithredu, integreiddio ac ymgysylltu â dinasyddion wrth ei gwraidd, gall y Gronfa hefyd gyfrannu at gyflawni nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#). Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu cysylltiadau â'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau nad oes bylchau na dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau integredig i wella llesiant pobl, gan gynnwys mewn perthynas â'r Gronfa.
62. Disgwylir i ranbarthau sy'n awyddus i gael cymorth gan y Gronfa (cyfalaf neu refeniw) amlinellu a ydynt wedi ystyried ffynonellau cyllid eraill, a sut y gwnaed hynny; sut mae'r rhain yn cyfrannu at brosiect neu fenter a ariennir gan y Gronfa, a sut maent yn cysylltu â mentrau iechyd a gofal cymdeithasol eraill sy'n bodoli'n barod.

Defnyddio'r Gronfa

63. Rhaid defnyddio'r Gronfa i gefnogi prosiectau a gwasanaethau newydd neu ychwanegu at rai sy'n bodoli'n barod. Ni all fod yn ffordd o amnewid ffynonellau cyllid eraill.

64. Dylai'r rhanbarthau geisio mynd ati i sicrhau bod prosiectau a chynlluniau a gefnogir yn rhai rhanbarthol lle bo modd.
65. Gellir defnyddio cyllid y Gronfa i gynorthwyo gweithio'n effeithiol yn rhanbarthol mewn modd uniongyrchol, gan gynnwys datblygu, rheoli a gwerthuso rhaglen ranbarthol y Gronfa.
66. Mae'r Gronfa hefyd yn rhoi cyfle i:
- i. annog arloesi a datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau integredig cynaliadwy;
 - ii. creu ymyriadau ataliol i helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl, yn ogystal ag atal achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty;
 - iii. datblygu atebion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar le, gan ganolbwyntio (ond nid yn llwyr) ar fodelau cymorth integredig a di-dor yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru.
 - iv. datblygu ymagweddau newydd i atal plant rhag gorfod mynd i lety diogel;
 - v. defnyddio ffynonellau cyllid eraill, fel y gronfa gofal sylfaenol, i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael, ond heb ddefnyddio'r gronfa yn lle'r rheiny;
 - vi. datblygu prosiectau arloesol sy'n cyfuno cronfeydd cyfalaf a refeniw y Gronfa i ddatblygu a phrofi modelau newydd o ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a thai lle bo hynny'n briodol;
 - vii. canolbwyntio adnoddau a chynyddu capasiti cynlluniau cydgysylltu gofal neu ymateb cyflym (fel timau adnoddau cymunedol ac amlddisgyblaethol), ynghyd â chyflymder y broses o'u datblygu, er mwyn bodloni'r galw'n well a gwneud y dull o gael gafael ar wasanaethau'n decach;
 - viii. adeiladu ar (nid disodli) y gwersi a'r arloesi a ddatblygwyd o fewn rhaglenni atal cynnar allweddol i blant a theuluoedd, a datblygu model cydlynol o atal ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y continwrm angen cyfan;
 - ix. creu dull mwy rhagweithiol o weithredu, gan geisio nodi'r bobl hynny sydd mewn perygl o beidio â gallu gadael gofal eilaidd, sy'n cael effaith ganlyniadol ar eu gallu i ddychwelyd i fywyd annibynnol;

- x. cynyddu capasiti gwasanaethau ailalluogi ac ymateb cyflym er mwyn bodloni'r galw'n well (gan gynnwys gwasanaethau dros nos ac ar benwythnosau);
- xi. hyrwyddo a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd byw'n annibynnol, gan gynnwys darparu dulliau newydd o ymdrin â thai sy'n cefnogi anghenion iechedd a gofal cymdeithasol pobl;
- xii. helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd neu, lle nad oes angen i blant a phobl ifanc fynd i ofal, sicrhau eu bod yn gallu elwa ar amgylchedd gofal sefydlog a chefnogol mor agos â phosibl i'r cartref;
- xiii. helpu i ddatblygu proses o gydweithredu wrth asesu anghenion ac wrth gynllunio gwasanaethau, eu trefnu, a'u darparu, ar lefel clystyrau gofal sylfaenol; a
- xiv. canfod a chefnogi ffyrdd o roi llety i bobl (yn arbennig pobl hŷn) sydd angen gofal cymdeithasol, yn ogystal â phobl sy'n cael llety y tu allan i'r ardal, unigolion sydd ag anghenion cymhleth a/neu anableddau dysgu.

Defnyddio cyfalaf y Gronfa

- 67. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol barhau i ddefnyddio eu Cynllun Buddsoddi Cyfalaf i nodi a blaenoriaethu eu blaenoriaethau strategol ar gyfer cyfalaf y Gronfa yn ystod 2021-22. Rhaid i'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf fod yn seiliedig ar ddiwallu'r anghenion llety a nodir yng Nghynllun ac Amcanion y Rhaglen.
- 68. Gallai prosiectau a gefnogir gan y Brif Raglen Gyfalaf gynnwys darpariaeth ar gyfer:
 - tai a llety i bobl sy'n agored i niwed;
 - prosiectau cyfalaf sy'n cefnogi dulliau integreiddio newydd ac arloesol ar gyfer y maes iechedd, gofal cymdeithasol a/ dai;
 - ailfodelu neu addasu adeiladau ar raddfa fwy at ddibenion tai a llety newydd;
 - cyfleusterau gofal canolraddol;
 - gwariant i ddangos tystiolaeth o neu i archwilio dichonolrwydd buddsoddiad cyfalaf mwy.
- 69. Yn ystod tair blynedd ddiwethaf y rhaglen, mae'r amrywiaeth o brosiectau wedi bod yn enfawr ar draws y rhanbarthau ond mae cynlluniau tai a llety wedi'u tangynrychioli mewn cronfa gyfalaf a arweinir gan dai. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ranbarthau gael mwyafrif sylweddol o brosiectau tai a llety wrth symud ymlaen. Byddwn yn monitro'r gwariant yn ystod 2021-22 er mwyn llywio ein ffordd o feddwl petai cyllid yn dod ar gael ar gyfer 2022-23 a'r blynyddoedd dilynol.

PENNOD 3: AMODAU

Cyllid Refeniw'r Gronfa

70. Wrth gyflawni amcanion y gronfa fel y'u nodir ym [Mhennod 2](#) o ran cyllid y Gronfa:

- i. rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi darpariaeth newydd neu ddarpariaeth ychwanegol o wasanaethau a ffyrdd o weithio, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau a restrir yn adran 16 y Ddeddf. Rhaid i gynlluniau ddangos yn glir yr ychwanegedd a fydd yn cael ei gyflawni, gan ddangos tystiolaeth o'r effaith yn y datganiadau chwarterol sy'n ofynnol fel rhan o'r broses o lywodraethu yng nghyswllt y gronfa;
- ii. gellir defnyddio cyllid y Gronfa i adeiladu ar sail arferion da presennol ac i gynyddu graddfa'r ddarpariaeth o wasanaethau integredig ledled Cymru. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar ffurf cyllid cychwyn i gynorthwyo gyda gweddnewid a newid, ac i brofi modelau cyflawni newydd;
- iii. gall cyllid y Gronfa gael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau amrywiol, rhai bach a mawr, i fodloni amcanion y Gronfa;
- iv. gall cyllid y Gronfa gael ei ddefnyddio fel bod refeniw yn cefnogi prosiectau cyfalaf, fel staffio adeilad newydd.

71. **Nid** yw'r Gronfa i'w defnyddio:

- i. ar gyfer cynigion nad ydynt yn gysylltiedig â'r meysydd a nodir yn y ddogfen ganllaw hon neu ddiweddariadau ar wahân Llywodraeth Cymru;
- ii. i gymryd lle ffrydiau cyllid sy'n bodoli eisoes;
- iii. i greu galw parhaus na ellir ei fodloni ag adnoddau sy'n bodoli eisoes.

72. O ran y £9m ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, er bod yr egwyddorion uchod yn dal yn berthnasol rydym wedi nodi'n glir yn y gorffennol y byddai gofyn i fyrdau partneriaeth rhanbarthol fwrw golwg sylfaenol ar y gwasanaethau dementia a'r llwybrau gofal sy'n bodoli ar hyn o bryd ym mhob ardal a datblygu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodir, yn unol â'r cynllun. Felly gellir ystyried natur y cynigion hyn yn y tymor hirach.

73. Mae cyllid refeniw y Gronfa ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 yn unig. Rhaid i fyrdau partneriaeth rhanbarthol gymryd camau i sicrhau gwariant llawn erbyn mis Mawrth 2022 gan na ellir cadw arian dros ben y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Nid oes capasiti i orwario. Er bod yr un egwyddorion yn berthnasol i gyllid cyfalaf y Gronfa, dylai

rhanbarthau adeiladu llif o brosiectau cyfalaf dros nifer o flynyddoedd er mwyn eu galluogi i reoli eu dyraniadau cyfalaf pe bai cyllid pellach ar gael.

74. Bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd yn y partneriaethau rhanbarthol, ond rhaid i benderfyniadau ar wariant gael eu gwneud ar y cyd gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ehangach. Rhaid i'r bwrdd oruchwyllo a sicrhau bod y Gronfa yn cael ei defnyddio a'i darparu'n effeithiol. Mae'r gronfa wedi ei dylunio i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, a rhaid i'r broses o benderfynu ar y dull o'i defnyddio adlewyrchu hynny.
75. Mae'n bosibl y bydd rhanbarthau'n dymuno ystyried a yw'n briodol cydweithredu'n ehangach ar ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau byrddau iechyd.
76. Mae dyraniadau refeniw dangosol y Gronfa ar gyfer 22-2021 ynghlwm yn Atodiad D ac maent yn amodol ar gymeradwyo'r Gyllideb derfynol gan Aelodau'r Senedd ym mis Mawrth 2021.
77. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod partneriaid yn defnyddio'r Gronfa yn effeithiol, ochr yn ochr ag ystod o ffrydiau ariannu, gan gynnwys y gronfa gofal sylfaenol, y Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg, Buddsoddi i Arbed a **chyllid craidd** fel bod gwariant yn cael ei gydgyssylltu i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i ddinasyddion. Lle mae ffrydiau ariannu eraill wedi'u cyfuno dylid nodi'r rhain fel rhan o'r broses adrodd, gyda chynlluniau'n cael eu rheoli mewn ffordd gydgyssylltiedig i sicrhau'r cymorth mwyaf posibl drwy becyn cydlynol o fesurau.
78. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gynnwys clystyrau wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau gwario, pan fo'n briodol. Bydd hyn yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau bod buddsoddiad drwy'r Gronfa yn cyd-fynd â blaenoriaethau clwstwr ac yn eu hategu.
79. Mae [Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth \(Cymru\) 2017 \(Diwygio\)](#) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth ystyried a yw'n briodol creu cronfeydd cyfun, pa bryd bynnag y byddant yn gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Gall cyllid y Gronfa gael ei ddefnyddio fel rhan o drefniant cyllideb gyfun. Fodd bynnag, rhaid i elfen y Gronfa o drefniant o'r fath gael ei mesur yn glir, a hynny o ran gwariant a chanlyniadau, fel rhan o'r trefniadau adrodd a ddisgrifir ym [Mhennod 5](#), isod. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwahaniaeth y mae'r Gronfa yn ei wneud i fywydau pobl yn cael ei nodi'n glir.
80. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwerth am arian y dyraniadau cyllid. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gymryd camau amserol a phriodol i nodi unrhyw achosion posibl o orwario/neu danwario, a'u lliniaru. Mae hyn yn gallu cynnwys ailddyrrannu cyllid i weithgareddau eraill sy'n bodloni meini prawf y Gronfa. Rhaid ailddosbarthu cyllid yn

ystod y flwyddyn yn effeithlon ac mewn modd amserol er mwyn sicrhau y caiff ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu'n **gynnar** â'r trydydd sector. Rhaid i'r alldro a ragwelir gael ei ddarparu fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru (mae'r trefniadau monitro ac adrodd i'w gweld ym [Mhennod 5](#)).

81. Os bydd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol o'r farn ei bod yn gwbl angenrheidiol trosglwyddo cyllid rhwng dyraniadau refeniw i osgoi tanwariant cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn, dylai unrhyw drosglwyddiad y cytunwyd arno gael ei adlewyrchu yn y datganiad chwarterol nesaf. Mae'r arian a ddyrannwyd i gynorthwyo'r gwasanaeth Awtistiaeth Integredig i Gymru "wedi'i neilltuo" o hyd – gweler paragraff 19.

TALU CYLLID REFENIW Y GRONFA

82. Mae cyllid refeniw y Gronfa ar gyfer 2021-22 wedi ei gynnwys ym mhrif ddyraniad y Byrddau Iechyd fel elfen wedi ei neilltuo. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei derfynau adnoddau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a bydd yn cyflwyno galwadau am gyllid yn fisol o fewn y terfynau hyn i gyllido ei ymrwymadau misol, gan gynnwys y Gronfa.
83. Bydd y cyllid Dementia o fewn y Gronfa yn cael ei roi i'r Byrddau Iechyd fel codiad 'yn ystod y flwyddyn' yn y dyraniad yn ystod 2021-22, yn amodol ar gymeradwyo cynigion gan y tîm polisi Iechyd Meddwl yn Llywodraeth Cymru.

Cyllid Cyfalaf y Gronfa

84. Mae'r rhaglen Gyfalaf y Gronfa yn gronfa a arweinir gan dai ac mae i'w defnyddio i gefnogi'r amcanion a nodir ym [Mhennod 2](#).
85. Rhaid i fuddsoddiad o'r rhaglen ddarparu ychwanegedd. Nid yw wedi'i gynllunio i amnewid, na disodli cyllid sydd ar gael o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio i gydategu ac ychwanegu gwerth at raglenni cyfalaf presennol, fel tai, iechyd, adfywio, addysg neu raglenni cyfalaf eraill. Dylid ystyried y cymorth refeniw parhaus sy'n ofynnol ac ar gael ar gyfer y buddsoddiadau cyfalaf hefyd. Y disgwyl yw y bydd datblygiadau sydd wedi cael eu gwerthuso, ac y dangoswyd eu bod yn effeithiol oherwydd y cyllid cyfalaf hwn, yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio fel arfer gorau i ategu integreiddio parhaus ac arloesol ymhellach ledled Cymru.
86. Dylid datblygu rhaglen gyfalaf yr ICF o ganlyniad i ystod eang o ymgysylltu a chydweithio ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Dylid ategu hyn gyda dealltwriaeth ar y cyd ar draws sectorau o fanteision cydweithio a datblygiadau mewn meysydd fel anabledd, pobl sy'n gadael gofal, helpu pobl hŷn yn eu cartrefi, darparu llety arbenigol (gan gynnwys ar gyfer anableddau dysgu) a darparu gwasanaethau camu i lawr ac ailalluogi er mwyn medru rhyddhau o unedau gofal aciwt.

87. Mae'n hanfodol bod y gwaith o ddatblygu'r rhaglen hon wedi'i wreiddio mewn asesiad iechyd a gofal o'r angen am dai a llety a nodir yng Nghynllun ac Amcanion y Rhaglen. Efallai y bydd angen i rai rhanbarthau ystyried eu trefniadau strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chomisiynu gofal er mwyn sicrhau bod y sector tai yn ymgysylltu'n llawn a hefyd yn ystyried yn llawn yr angen am dai lleol a rhanbarthol a nodwyd gan asesiadau awdurdodau lleol a strategaethau tai lleol neu ranbarthol. Bydd y rhain i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth bennu Cynllun Rhaglen Gyfalaf y Gronfa a sicrhau ei fod yn bodloni amcanion strategol y rhanbarthau.
88. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhaglen gyfalaf y Gronfa yn ffordd bwysig o gynorthwyo i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol lle nad yw hynny'n ymwneud â llety. Fodd bynnag, nid dyma brif amcan cronfa a arweinir gan dai. Ni all cyllid cyfalaf Gronfa gefnogi gwasanaethau fel hybiau/llyfrgelloedd cymunedol. Mae yna ofynion pwysig ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith ehangach er mwyn sicrhau arloesi wrth integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac mae modd i gyfalaf y Gronfa gefnogi hyn mewn modd cyfyngedig, a hynny'n bennaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn. Mae'n bosibl yr adolygir hyn eto os daw rhagor o arian ar gael.
89. Mater i bartneriaethau rhanbarthol benderfynu arno (o fewn dibenion cyffredinol y rhaglen Gyfalaf) yw defnyddio'r cyllid cyfalaf yn effeithiol ac yn effeithlon, gan sicrhau bod trefniadau cyflawni cadarn yn cael eu rhoi ar waith i ddefnyddio'r holl gyllid. Dylai rhanbarthau ddatblygu cyfres o brosiectau cyfalaf perthnasol a'u rheoli fel rhaglen sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn. Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn cymeradwyo prosiectau sy'n bodloni amcanion Cymru iachach ac a nodir fel blaenoriaeth yn eu Cynlluniau ar gyfer Rhaglen Gyfalaf y Gronfa.
90. Rhaid ymgynghori â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Comisiynwyr, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal â chyrff sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed ynghylch Cynllun ac Amcanion y Rhaglen Gyfalaf, yn ogystal â'r datblygiadau cyfalaf arfaethedig. Mae cynllunio hirdymor yn cael ei wneud mewn nifer o'r meysydd hyn (er enghraifft Cynlluniau Datblygu Rhaglenni awdurdodau tai lleol ar gyfer tai cymdeithasol, cynlluniau adfywio canol trefi a chynlluniau buddsoddi cyfalaf byrddau iechyd lleol). Dylid ystyried sut y buddsoddir cyfalaf y Gronfa mewn unrhyw ranbarth ochr yn ochr â'r cynlluniau hynny er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.
91. Mae amcan newydd yn y Gronfa newydd i gefnogi prosiectau a gomisiynir ar y cyd sy'n darparu llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, ar y pen uchaf. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, *Dim Drws Anghywir*. Mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl gweld prosiectau'n cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y plant hyn ym mhob rhanbarth a lleihau'r defnydd o lety diogel a lleoliadau y tu allan i'r sir/gwlad. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro sut mae'r rhanbarthau'n blaenoriaethu prosiectau cyfalaf fel darpariaeth breswyl integredig i ddarparu cymorth cydgysylltiedig amserol.

92. Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa yn parhau i gael ei defnyddio drwy **Brif Raglen Gyfalaf (MCP) o leiaf 85% yn 2021-22** o ddyraniad rhanbarth, **a Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn (DCP) na ddylai fod yn fwy na 15%** o ddyraniad rhanbarth. Gweler isod am ragor o fanylion.
93. Yn y lle cyntaf, rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol brosesu ac ardystio prosiectau unigol o fewn eu MCP a'r DCP. Yna, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol anfon y prosiectau hynny a ardystiwyd ac a gymeradwywyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer craffu a chymeradwyaeth Weinidogol (gweler yr adran ar y broses ymgeisio).
94. Gall rhanbarthau symud arian o'u lwfans DCP i gynorthwyo eu prosiectau MCP, ond ni ellir symud arian o'u lwfans MCP i gynorthwyo eu prosiectau DCP.
95. Mae rhaglen gyfalaf y Gronfa yn cael ei defnyddio fel hyn i gefnogi ymagwedd fwy strategol a chadarnhaol tuag at fuddsoddiad, ond gan gadw'r gallu i ranbarthau gynorthwyo prosiectau lleol neu ranbarthol llai os ydynt yn strategol bwysig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyfalaf y Gronfa gael ei dargedu at ddarparu tai a llety.
96. Gall bwrdd iechyd lleol, awdurdod lleol, corff trydydd sector neu gymdeithas tai, neu gyfuniad o unrhyw un o'r rhain, ddarparu prosiectau sy'n cael eu cefnogi gan gyllid cyfalaf y Gronfa. Mater i fyrddau partneriaeth rhanbarthol yw cytuno pwy fydd y sefydliad arweiniol mewn unrhyw brosiect, a sicrhau ei hun bod prosesau llywodraethu a rheoli prosiectau cyfalaf cadarn ar waith.
97. Er mwyn sicrhau cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, dylai prosiectau ddangos newid amlwg tuag at fodolau gofal newydd, neu yn y ffyrdd y bydd y sefydliadau sy'n cydweithredu yn gweithredu'n wahanol o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion.

Prif Raglen Gyfalaf

98. Dylid defnyddio'r Brif Raglen Gyfalaf ar gyfer prosiectau mwy sydd angen buddsoddiad sylweddol (lle mae costau prosiect dros £100,000), gan gynnwys y rhai a allai fod angen cymorth ariannol dros nifer o flynyddoedd er mwyn cynorthwyo gyda chamau datblygu ac adeiladu helaeth.
99. Mae'n bosibl y gellir rhoi arian cyfatebol ar gyfer prosiectau a gefnogir gan yr MCP drwy raglenni cyfalaf eraill. Disgwylir y bydd sefydliadau partner yn cyfrannu at brosiectau lle bo'n briodol, a gall hyn ddigwydd drwy gyllid uniongyrchol neu asedau. Bydd y gyfradd gyffredinol o ymyrraeth yn cael ei dangos drwy'r wybodaeth y gwneir cais amdani yn y cais MCP. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lefel y cymhorthdal a gynigir yn gymesur a phriodol, a bydd yn rhan o'r gwaith craffu a chymeradwyo ar lefel ranbarthol a gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn ystyried ceisiadau am gyllid i dalu

cyfanswm costau prosiect mewn amgylchiadau eithriadol a chyda chyfiawnhad cymhellol.

100. Gallai prosiectau a gefnogir gan yr MCP gynnwys darpariaeth ar gyfer:

- tai a llety i bobl sy'n agored i niwed;
- prosiectau cyfalaf sy'n cefnogi dulliau integreiddio newydd ac arloesol ar gyfer y maes iechyd, gofal cymdeithasol a thai;
- ailfodelu adeiladau ar raddfa fwy at ddibenion tai a llety newydd;
- cyfleusterau gofal canolraddol;
- gwariant i ddangos tystiolaeth o neu i archwilio dichonolrwydd buddsoddiad cyfalaf mwy.

101. Ni chaniateir defnyddio'r MCP ar gyfer cymhorthion neu addasiadau neu brosiectau offer.

102. Mae'r broses ymgeisio MCP yn broses ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn nodi egwyddorion a chostau amcangyfrifedig y prosiect. Nod yr ail ran yn bennaf yw nodi'r costau sydd wedi'u cadarnhau/eu cynllunio (gallai hyn fod pan fydd prosiect wedi'i dendro, ond nid o reidrwydd) ond hefyd dangos tystiolaeth bod proses gaffael gadarn yn cael ei mabwysiadu. Mae'n gwbl dderbyniol i brosiect fod mewn sefyllfa y gellir ei disgrifio yn rhan 1 a 2 ar yr un pryd.

103. Bydd unrhyw gyllid i gefnogi elfen llety'r prosiect (yn hytrach na'r cyfleusterau ychwanegol sy'n rhan o'r mathau hyn o gynlluniau) yn cael eu hasesu gan ystyried rhaglenni cyfalaf presennol ar gyfer tai fel y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Mewn rhai achosion, gall cais am gyfalaf y Gronfa fod yn gysylltiedig â phrosiect sydd hefyd yn gwneud cais am gyfalaf iechyd Llywodraeth Cymru. Os mai dyma'r achos, dylid tynnu sylw ato ar gais yr MCP a bydd y wybodaeth a ddarperir fel rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer cyfalaf iechyd yn cael sylw dyladwy. Mae proses ymgeisio'r MCP wedi'i llunio i ddeall yr holl ffynonellau cyllid er mwyn ystyried hyn yn llawn.

104. Nod proses ymgeisio'r MCP yw ystyried prosiectau sy'n cyd-fynd â'r Model Pum Achos fel gydag Achosion Busnes y Sector Cyhoeddus. Yn y bôn, golyga hyn yr ystyrir prosiectau ar sail y Diben, yr achos Strategol, yr achos Economaidd, yr achos Masnachol, yr achos Ariannol a'r achos Rheoli.

105. Dylid sicrhau bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol brosesau mewnol eu hunain ar waith er mwyn arfarnu a chymeradwyo prosiectau cyn y byddant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dylid nodi cymeradwyaeth priodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar y ffurflen gais.

Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn

106. Bydd y Rhaglen Gyfalaf yn ôl Disgresiwn ar gael i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol at y dibenion a ganlyn:

- cymhorthion ac addasiadau nad ydynt yn cael eu cefnogi gan raglenni sy'n bodoli eisoes ac sy'n cefnogi amcanion **penodol** y Gronfa, e.e. addasiadau tai i blant ag anghenion cymhleth lle mae cost yr addasiad yn fwy na'r terfyn uchaf o £36,000 ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol neu angen Ymateb Cyflym gwell;
- prosiectau cyfarpar sy'n cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac y gallant leihau'r nifer sy'n gorfod mynd i mewn i'r ysbyty neu gyflymu'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty;
- prosiectau eraill llai o faint i gefnogi amcanion y Gronfa (e.e. a arweinir gan y gymuned neu'r trydydd sector); a
- gwariant i ddangos tystiolaeth neu archwilio dichonoldeb cyflwyno prosiect cyfalaf mwy o faint (e.e. fel prosiect unigol);
- rhaglenni technoleg gynorthwyol ddigidol.

107. Nid yw prynu cerbydau yn fuddsoddiad cymwys o dan raglen gyfalaf y Gronfa.

108. Mae'r DCP ar gyfer prosiectau llai o faint hyd at uchafswm gwerth o £100,000 fesul prosiect, a gall ond fod yn uchafswm o 15% o ddyraniad cyfalaf y Gronfa yn y rhanbarth bob blwyddyn. Bwriad Llywodraeth Cymru yw gostwng cyfran y DCP yn rhaglen gyfalaf y Gronfa 5% bob blwyddyn, gan ddechrau ar 25% yn 2018-19 a gostwng i 15% yn 2020-21. Yn 2020-21 torrodd Covid-19 ar draws y cyfeiriad hwn a cyflwynwyd hyblygrwydd ychwanegol, ond erys y bwriad o hyd. Yn 2021-22 bydd uchafswm o 15% o ddyraniad rhanbarth ar gael i gefnogi prosiectau DCP.

109. Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyo Atodlen DCP (gweler Atodiad 1) a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn dangos bod y gwariant yn cyd-fynd â'r defnydd arfaethedig gyda'r Gronfa. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod mecanweithiau priodol ar waith i sicrhau bod y gwaith sy'n gysylltiedig â phrosiectau yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac egwyddorion arweiniol a bod prosesau mewnol cadarn ar gyfer craffu a chymeradwyo. Bydd angen dangos y rhain i Lywodraeth Cymru a fydd yn arfer lefel gymesur o asesu a chraffu.

TALU CYLLID CYFALAF Y GRONFA

110. Bwrdd iechyd lleol ar gyfer rhanbarth penodol a fydd yn derbyn cyllid cyfalaf y Gronfa. Dylai'r trefniadau sydd wedi eu sicrhau o fewn y rhanbarth ac a ategir gan y grant dyfarnu cyllid wneud yn siŵr bod y trefniadau llywodraethu gofynnol ar waith i helpu i'r

cyllid fynd yn rhwydd i'r Bwrdd Iechyd neu oddi wrtho i bartneriaid eraill y prosiect yn ôl yr angen (gan gynnwys, ond nid yn gyfan gwbl, cyrff trydydd sector, awdurdodau lleol a chymdeithasol tai).

111. Mae gan fyrddau iechyd lleol y pŵer i dalu cyllid cyfalaf y Gronfa i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig dan adran 194 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Adran 194 yn nodi y gall Byrddau Iechyd Lleol wneud taliadau i gyrff penodedig mewn perthynas â gwariant ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys taliadau i:
- Awdurdodau lleol tuag at unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014;
 - Awdurdodau tai tuag at unrhyw wariant yn sgil ei gysylltiad â'i swyddogaethau yn Rhan 2 Deddf Tai 1985; a
 - Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig tuag at unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â darparu tai.
112. Bydd Cyllid Cyfalaf y Gronfa yn cael ei dalu bob chwarter ar ffurf ôl-daliadau.
113. Bydd y cyllid yn cael ei roi drwy grant cyfalaf gyda'r amodau a'r telerau perthnasol wedi eu cynnwys.
114. Lle bo'n briodol, bydd gofyn i brosiectau sy'n derbyn cyllid grant o dros £100,000 mewn gwerth ar gyfer tir neu adeiladau ddarparu arwystl cyfreithiol i Lywodraeth Cymru neu gyfyngiad i warchod y buddsoddiad grant ac i atal yr eiddo rhag cael ei waredu heb gydsyniad Llywodraeth Cymru. Manylir ar yr amod ariannu hwn yn y llythyr dyfarnu grantiau.

CHOSTAU A CHYNLLUN PROSIECTAU CYFALAF

115. Mae'r cais MCP yn gofyn am wybodaeth gymharol fanwl am y costau sy'n gysylltiedig â phrosiect ac mae'n gwneud hyn mewn dwy ran. Y rhan gyntaf fydd yn ystod y cais (ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru), a bydd yr ail ran yn cael ei chadarnhau/ei chynllunio unwaith mae prosiect wedi ei gymeradwyo ac yn symud ymlaen. Mae'n bwysig darparu'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau y gellir cymeradwyo yn ystod y cam Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn ystod camau craffu Llywodraeth Cymru.
116. Mae'r cais MCP yn gofyn hefyd am ddadansoddiad o'r ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau gyda golwg i ddangos pa ganran o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod prosiectau'n cael eu digolledu ar y lefel briodol. Er y gallai hyn fod yn

wahanol yn dibynnu ar y math o brosiect, rhaid darparu'r wybodaeth hon ar gyfer craffu a chymeradwyo.

117. Mae'r cais MCP hefyd yn ceisio nodi dull y prosiect o ddylunio a safonau a'r gost fras fesul metr sgwâr pan fydd y gwaith adeiladu neu adnewyddu'n gysylltiedig. Bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses graffu. Er mwyn datblygu prosiectau i safon uchel, bydd disgwyl i ymgeiswyr fodloni safonau tai Llywodraeth Cymru ac ystyried canllawiau arfer da perthnasol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill. Dylid dangos tystiolaeth o hyn yn y cais MCP.
118. Ar gyfer pob prosiect tai a llety bydd angen i ranbarthau ddarparu manylion penodol i brosiectau ar gyfer y broses graffu dechnegol.
119. Mae hyn yn cynnwys brîff prosiect yn ogystal â'r set ganlynol o luniau:
- Cynllun lleoliad y safle sy'n nodi ffin perchnogaeth tir a "Phwynt y Gogledd"
 - Topograffeg bresennol
 - Cynllun dadansoddi cyd-destun safle (cyfyngiadau a chyfleoedd)
 - Cynigion cynllun y safle
 - Y cynlluniau llety a gynigir, yn nodi'n glir y rhestrau llety a'r arwynebedd llawr
 - Gweddlluniau arfaethedig
 - Adrannau safle arfaethedig
 - Os bydd adeilad sy'n bodoli eisoes bydd angen "fel lluniadau presennol"
 - Un copi papur (yn ogystal â chopïau electronig a gyflwynir ar gyfer ffeilio) i'w ddarparu, wedi'i argraffu ar raddfa addas i ddarllen testun a chyda bariau paramedr graddfa ar y cynlluniau.
120. Dylid darparu'r rhain cyn gynted ag y byddant ar gael ac yn ddelfrydol ar gam Rhan 1 o'r broses ymgeisio.
121. Lle mae prosiectau nad ydynt yn ymwneud â llety yn cael eu cyflwyno, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa broses graffu dechnegol sy'n berthnasol ac a oes ei hangen.

PENNOD 4: LLYWODRAETHIANT

122. Rhaid i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol gyda'i gilydd bennu holl benderfyniadau cyllido'r Gronfa. Mae'r gronfa wedi ei dylunio i ddatblygu ffordd fwy effeithiol o weithio mewn partneriaeth, a rhaid i'r penderfyniadau ar y dull o'i defnyddio adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, disgwylir i fyrddau partneriaeth rhanbarthol roi trefniadau ar waith i alluogi proses graffu ar y penderfyniadau buddsoddi gan y cyrff sofran perthnasol.

123. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol roi dulliau ar waith i sicrhau bod y cyllid a ddyrannwyd yn cael ei reoli'n effeithiol, gan gynnwys i bartneriaid yn y trydydd sector a modelau cyflawni amgen eraill, er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ar amser ac yn ôl y gyllideb. Rhaid rhoi systemau priodol ar waith er mwyn ymgymryd â phroses "diwydrwydd dyladwy" cyn defnyddio unrhyw ran o'r cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partïon.
124. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol nodi unigolyn a enwir i oruchwyllo a monitro'r Gronfa yn eu rhanbarth. Os yw'r swydd hon ar wahân i swydd yr arweinydd gweithredu rhanbarthol, dylai'r person hwnnw weithio ochr yn ochr ag ef wrth reoli'r gronfa yn unol â'r canllawiau hyn ac wrth rannu arferion da. Dylai manylion cyswllt arweinydd rhanbarthol y Gronfa fod ar gael yn rhwydd, gan dynnu sylw'r cyhoedd atynt, fel bod pob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y trydydd sector, rhanbarthau eraill ac aelodau'r cyhoedd yn gwybod pwy y dylid cysylltu ag ef i gael gwybodaeth am y gronfa.
125. Bydd arweinydd rhanbarthol y Gronfa yn rheoli'r broses o gyflwyno adroddiadau bob chwarter, gan nodi llwyddiant cynlluniau'r Gronfa drwy fesur y gwahaniaeth y maent yn ei wneud a dangos tystiolaeth o werth am arian. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ym [Mhennod 5](#).
126. At ddibenion y Gronfa, diffinnir 'refeniw' a 'cyfalaf' fel a ganlyn:
- **gwariant cyfalaf** yw'r broses o brynu neu greu asedau y bwriedir eu defnyddio am o leiaf un flwyddyn neu fwy. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau fel tir, adeiladau a chyfarpar.
 - **gwariant refeniw:** gwariant sy'n cael ei greu gan gostau rhedeg o ddydd i ddydd a fyddai'n cynnwys rhent, cyfleustodau a chyflogau.
127. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gysylltu â Llywodraeth Cymru os oes angen rhagor o eglurder arnynt.

Cytundeb Ysgrifenedig

128. Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol roi trefniadau cadarn ar waith i reoli'r gwaith o ddarparu cyllid cyfalaf a refeniw'r Gronfa yn effeithiol. Rhaid i Gytundeb Ysgrifenedig rhwng y partneriaid fod ar waith a dylai adlewyrchu'r gofynion a nodir yn Atodiad B. Dylai'r rhanbarthau ystyried y sgiliau sydd eu hangen i reoli prosiectau cyfalaf lle mae angen sgiliau gwahanol i reoli gwasanaethau refeniw.
129. **Rhaid** i'r Cytundeb Ysgrifenedig gael ei lofnodi gan Gadeirydd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol a Phrif Weithredwr y bwrdd iechyd perthnasol, a chael ei gydlofnodi gan yr

arweinydd ariannol a enwebir (fel cyfarwyddwr ariannol) â'r awdurdod dirprwyedig priodol. Disgwylir i fyrddau partneriaeth rhanbarthol adolygu'r Cytundeb Ysgrifenedig yn flynyddol, gan adrodd i Lywodraeth Cymru am unrhyw ddiwygiad.

130. Mae'r gofynion llywodraethu a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i gyllid cyfalaf, gan gynnwys diwydrwydd dyladwy a threfniadau Cytundebau Ysgrifenedig.
131. Yn ogystal â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu hunain, disgwylir y bydd gan unrhyw is-strwythur cysylltiedig a pherthnasol (e.e. Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai) ran wrth ystyried a blaenoriaethu prosiectau arfaethedig yn y rhanbarth. Er mwyn sicrhau bod hyn yn wir, mae'n bwysig bod cynrychiolwyr o bob rhan o iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a thai yn gallu chwarae rhan lawn yng ngwaith y grwpiau hynny.
132. Cydnabyddir y gall prosiectau a gefnogir gyda chyllid cyfalaf y Gronfa gael eu darparu gan un Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdod lleol, corff trydydd sector, cymdeithas tai neu gyfuniad ohonynt. Dylai'r trefniadau sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Ysgrifenedig reoli trefniadau llywodraethu ar gyfer unrhyw un o'r cyrff hynny er mwyn arwain y broses o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys y gallu i unrhyw un o'r sefydliadau hynny allu derbyn cyllid cyfalaf y Gronfa yn y pen-draw.
133. Gwneir darpariaeth fanwl ar gyfer gofynion llywodraethu hefyd yn yr amodau a'r telerau a nodir yn y llythyr yn dyfarnu grant i'r bwrdd iechyd lleol.

Cynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa

134. Gan ddefnyddio'r templed yn Atodiad C, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ddatblygu Cynllun Buddsoddi Refeniw newydd sy'n nodi'r prosiectau a'r gwasanaethau i'w hariannu yn 2021-22. Gan mai hon yw blwyddyn olaf y rhaglen mae'n bwysig bod prosiectau a gwasanaethau'n gallu cael eu cyflawni erbyn 31 Mawrth 2022. Rhaid i bob prosiect gael strategaeth ymadael. Disgwylir brosiectau sydd wedi'u gwerthuso ac a gafodd effaith gadarnhaol gyfyngedig gael eu datgomiynu.
135. Dylai'r cynllun gwmpasu'r holl feysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio fel y nodir ym mharagraffau 12-14 ac eithrio'r categori ariannu newydd sy'n ymwneud â llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, ar y pen uchaf. **Dylid cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth.** Dylid paratoi'r Ffurflen Cynnig Prosiect yn Atodiad E ar gyfer unrhyw brosiectau newydd i'w cefnogi yn 2021-22 a dylid ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda'r Cynllun Buddsoddi. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynlluniau buddsoddi i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chanllawiau'r Gronfa ac yn rhoi adborth o fewn 15 diwrnod gwaith i'w derbyn.
136. O ran cyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn unig, bydd angen cyflwyno'r cynllun buddsoddi ar gyfer 2021-22 yn ffurfiol, ynghyd â chyflwyno unrhyw gynigion

prosiect newydd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd prosiectau newydd o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn destun cymeradwyaeth ffurfiol. Bydd angen hyd at 15 diwrnod gwaith ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynlluniau buddsoddi a rhoi adborth. Anogir byrddau partneriaeth rhanbarthol i gyflwyno cynlluniau buddsoddi mor gynnar â phosibl. Dylid nodi bod rhyddhau'r cyllid ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ar gyfer 2021-22 yn amodol ar dderbyn gweithgarwch priodol a monitro canlyniadau ar gyfer prosiectau sydd wedi derbyn cymeradwyaeth flaenorol. Bydd angen yr adroddiadau sy'n dangos gweithgarwch ar gyfer prosiectau 2020-21 er mwyn llofnodi prosiectau y cynigir eu bod yn parhau hyd at 2021-22. Ar gyfer cyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia gellir anfon y rhain i mewn fel dogfennau ar wahân.

137. Wrth gynllunio a gweithredu eu rhaglenni/prosiectau o dan y Gronfa, gofynnir i'r rhanbarthau wneud y canlynol:



- Dilyn methodoleg gomisiynu – Bydd y pedwar cam allweddol - **Dadansoddi, Cynllunio, Gwneud ac Adolygu** yn sicrhau bod prosiectau'n mynd i'r afael ag anghenion lleol a nodwyd, yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n effeithiol a bod tystiolaeth briodol o effaith yn cael ei chasglu i gefnogi gwerthuso trylwyr.

- Ystyried y **10 Egwyddor Cynllunio a welir yn 'Cymru Iachach'** er mwyn helpu i lunio a datblygu eu prosiectau.

- Gosod amserlen ar gyfer prosiectau gan gynnwys dyddiadau disgwylidig i gychwyn a gorffen i bob prosiect a gweithgarwch gwerthuso.

138. Dylai Cynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa gefnogi'n uniongyrchol y blaenoriaethau strategol a nodir yn y cynllun ardal leol, a bydd yn amlinellu'r hyn y disgwylir ei gyflawni gyda'r arian, yr effaith ar ddinasyddion a sut caiff llwyddiant ei fesur.

139. Dylai cynlluniau bach a thebyg sy'n rhannu amcan cyffredin gael eu cysylltu â'i gilydd o dan thema 'ambarél'. Disgwylir i fyrddau partneriaeth rhanbarthol fabwysiadu dull grwpio rhanbarthol neu thematig o ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi.

140. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhagnodi'r union ddull o ddefnyddio'r cyllid refeniw a ddarperir. Fodd bynnag, dylai cynlluniau ddangos newid amlwg yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, neu yn y ffyrdd y mae'r sefydliadau sy'n cydweithio yn gweithredu er mwyn darparu canlyniadau gwell i ddinasyddion.

141. Fel y nodir ym mharagraff 71, ni ddylid defnyddio cyllid y Gronfa i ategu busnes craidd. Rhaid i brosiectau a gwasanaethau fod yn gyfyngedig o ran amser a bod ganddynt strategaeth glir o ran datblygu, prif-ffrydio neu ymadael. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol adolygu a gwerthuso prosiectau i bennu beth sydd wedi gweithio a pham. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio datblygiad parhaus y Cynllun Buddsoddi.
142. Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod y gwariant sydd wedi'i gynllunio'n gwireddu amcanion y gronfa i gyflawni egwyddorion amrywiol a gofynion penodol y Ddeddf, fel y'u heglurir ym [Mhennod 2](#). Dylai cynlluniau sydd â phroffil uchel ac a flaenoriaethir gael eu nodi gyntaf yn y Cynllun Buddsoddi.
143. Wrth gytuno ar Gynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol roi sylw dyledus i [Bennod 3](#) a bod yn fodlon bod dyraniadau arfaethedig y Gronfa yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y bennod honno.
144. Er mwyn sicrhau bod disgwyliadau gweinidogol yn cael eu bodloni, bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn herio unrhyw brosiect arfaethedig nad yw'n cyd-fynd yn glir ag egwyddorion y Gronfa a'r gofynion a nodir yn y canllawiau hyn.
145. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ymateb i ymholiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw agwedd ar Gynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa yn unol â'r terfyn amser a bennir.
146. Rhaid i'r Cynllun Buddsoddi Refeniw gael ei lofnodi a'i gymeradwyo yn unol â'r broses ar gyfer y Cytundeb Ysgrifenedig a nodir ym [Mhennod 4](#). Ni fydd Cynlluniau heb eu lofnodi yn cael eu derbyn.

Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa

147. Dylai Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa nodi'r prosiectau a'r gweithgarwch i'w hariannu yn ystod 2021-22 sy'n bodloni Cynllun ac Amcanion Rhaglen y rhanbarth. Rhaid cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf i Lywodraeth Cymru bob tro y cyflwynir cais MCP neu DCP i'w gymeradwyo.
148. Mae Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa hefyd yn cynnwys y gallu i gynnwys llif o brosiectau "wrth gefn" a "photensial" nad ydynt mor uchel yn flaenoriaeth strategol â phrosiectau eraill. Dylai'r prosiectau "wrth gefn" a "photensial" gefnogi gofynion ac anghenion y Gronfa yn y rhanbarth a byddent yn gallu manteisio ar unrhyw arian a fydd ar gael oherwydd oedi neu faterion eraill gyda phrosiectau â blaenoriaeth.
149. Wrth gytuno ar Gynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol roi sylw dyledus i'r amodau yn y canllaw hwn a bod yn fodlon bod dyraniadau cyfalaf arfaethedig y Gronfa yn bodloni'r meini prawf a nodir yn yr amodau hynny.

150. Dylai'r Cynllun Buddsoddi gael eu datblygu a'u cymeradwyo'n strategol gan bob partner rhanbarthol a'u hystyried ochr yn ochr â Chynllun Buddsoddi Refeniw y Gronfa a chynlluniau buddsoddi cyfalaf perthnasol eraill fel PDP Tai ac IMTP byrddau ieuchyd.
151. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau hyn a dangos tystiolaeth o rheolaeth gadarn dros raglenni dyraniadau cyfalaf, sy'n cynnwys y gallu i wario cyllid a ddyrennir.
152. Disgwylir y bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ymateb i unrhyw ymholiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar Gynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa. Rhaid i ddiwygiadau i Gynllun Buddsoddi Cyfalaf y Gronfa hefyd gael eu cymeradwyo a'u cymeradwyo yn unol â'r gofynion uchod.

Y Broses Ymgeisio am Gyllid Cyfalaf y Gronfa

153. Rhaid i'r ffurflenni cais ar gyfer prosiectau o fewn y MCP a'r Atodlen DCP gael eu cyflwyno gan y rhanbarthau drwy gynrychiolydd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol (yn gyffredinol, arweinydd y Gronfa), ond rhagwelir y bydd sefydliadau sy'n arwain y prosiectau hefyd yn cyfrannu at neu'n cynorthwyo i baratoi ceisiadau. Rhaid i'r rhanbarth gydlynu a rheoli hyn.
154. Bydd ceisiadau MCP, yr Atodlen DCP a'r Cynllun Buddsoddi Cyfalaf yn cael eu hystyried a'u hasesu gan banel craffu o swyddogion o bob rhan o adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r ystyriaethau a fanylir yn adrannau'r DCP a'r MCP, rhoddir ystyriaeth hefyd i gydymffurfiaeth â meini prawf, manteision ac effeithiau'r Gronfa yn gyffredinol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, ynghyd â gwerth am arian y prosiectau a pha mor gyflawnadwy ydynt. Dim ond ffurflenni cais cyflawn sy'n cynnwys manylion llawn y prosiect, ynghyd â'r llofnodwyr perthnasol, fydd y panel yn eu ystyried, ac ni fyddant yn ystyried amrywiadau ar y ffurflenni hynny.
155. Dylai ceisiadau manwl am brosiectau fod ar waith i sicrhau'r cymeradwyaethau perthnasol yn ystod y flwyddyn 2021-22. Fodd bynnag, dylai ceisiadau a chynlluniau ar gyfer prosiectau a buddsoddiadau yn y dyfodol gael eu datblygu mewn da bryd cyn dechrau'r blynyddoedd hynny (h.y. 2019-20 a 2020-21) er mwyn osgoi oedi cyn defnyddio'r cyllid. Gall hyn gynnwys cynlluniau "wrth gefn" a "phosibl" y gellir eu cymeradwyo ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod rhaglen weithgarwch wedi ei sefydlu ac y gellir rheoli dyraniadau rhanbarthol dros nifer o flynyddoedd.
156. Bydd panel craffu Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Unwaith y bydd cymeradwyaeth DCP wedi cael ei sicrhau, bydd llythyr dyfarnu grant yn cael ei ddarparu. Unwaith y bydd cymeradwyaeth MCP wedi cael ei sicrhau, bydd cytundeb neu lythyr cynnig grant mewn egwyddor yn cael ei anfon (yn dibynnu a fydd y prosiect yn un Rhan 1 neu Ran 2), ynghyd â thelerau ac amodau'r cyllid.

CYFNOD TROSIANNOL A'R POSIBILRWYDD Y BYDD Y RHAGLEN YN DOD I BEN

157. Mae 2021-22 yn flwyddyn drosiannol. Hyd nes y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud mewn perthynas ag unrhyw raglenni olynol posibl, mae'n bwysig bod byrddau partneriaeth rhanbarthol yn defnyddio'r flwyddyn drosiannol hon i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y posibilrwydd o gau neu drosglwyddo'r rhaglen bresennol ym mis Mawrth 2022. Bydd sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol a chontractiol yn cael sylw a bod tystiolaeth yn cael ei choladu i gefnogi archwilio a gwerthuso priodol yn hollbwysig. Dylid adolygu prosiectau a naill ai eu prif ffrydio neu eu dwyn i ben er mwyn sicrhau y gall y rhaglen, os oes angen, ddod i ben yn llwyddiannus erbyn 31 Mawrth 2022. Dylid rhoi asedau, ffeiliau/cofnodion ac adroddiadau etifeddiaeth mewn trefn dda i gefnogi cau'n effeithiol ac yn amserol os oes angen.
158. Os daw'r rhaglen i ben bydd angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol weithio gyda byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i adleoli staff. Lle nad yw'n bosibl gwneud hyn, bydd angen ystyried a allai fod angen diswyddo staff, gan sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith cyflogaeth. O ran ariannu costau diswyddo mewn perthynas â'r Gronfa, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi costau diswyddo cyflogwyr sector cyhoeddus awdurdodau lleol neu fwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr effaith bosibl ar sefydliadau'r trydydd sector ac felly bydd yn cynnal yr egwyddor a gymhwysir ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf o ganiatáu i gyllid gael ei ddefnyddio i dalu costau diswyddo statudol sefydliadau'r trydydd sector *a fyddai'n hyfyw ac yn gynaliadwy oni bai am effaith costau diswyddo na ragwelwyd*. Bydd cymeradwyaeth i ddefnyddio cyllid fel hyn yn digwydd fesul achos a bydd angen i dîm prosiect y Gronfa nodi unrhyw gamau a gymerwyd i ddod o hyd i gyllid newydd arall ar gyfer y prosiectau neu'r gwasanaeth hwn ac amlinellu'r risgiau penodol y mae'r costau diswyddo yn unig yn eu cyflwyno i hyfywedd parhaus y gwasanaeth neu'r prosiect hwn. Os bydd angen, dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gomisiynu eu cyngor cyfreithiol eu hunain gan na fydd gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn darparu hyn. Anogir rhanbarthau i ddatblygu cynllun cau i sicrhau bod yr holl elfennau angenrheidiol yn cael eu hystyried. Dylai'r cynllun gynnwys:
- Strategaethau ymadael â phrosiectau
 - Trosglwyddo asedau a/neu waredu
 - Cyfathrebu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth
 - Defnyddwyr gwasanaeth yn achos cau neu drosglwyddo achosion
 - Cydymffurfiaeth GDPR gan gynnwys cofnodion personol cleientiaid
 - Dileu swydd neu drosglwyddo staff
 - Adroddiadau etifeddiaeth
159. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol ystyried meysydd eraill sy'n berthnasol i gynlluniau penodol lle bo angen

160. Er bod cyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn defnyddio mecanwaith y Gronfa i rannu cyllid, nid yw'n rhan o raglen graidd y Gronfa ac felly nid yw'n ddarostyngedig i'r bwriad i gau'r rhaglen ac fe'i hystyrir yn gyllid cylchol. Fodd bynnag, dylid craffu ar brosiectau unigol a ariennir drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â nodau ac amcanion y cynllun a bod canlyniadau arfaethedig y cyllid yn dal i gael eu cyflawni. Fel y cyfryw, ac fel y nodwyd eisoes, mae pob prosiect o gyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn amodol ar gymeradwyaeth yn flynyddol.

Cyfathrebu

161. Er mwyn i randdeiliaid a dinasyddion ddeall sut mae'r Gronfa'n cael ei defnyddio ar draws Cymru, dylid cyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi ac anfon dolen i'r cynllun i Lywodraeth Cymru ar ôl ei gyhoeddi. Yn ogystal, rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddatblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer rhaglen y Gronfa (Cyfalaf a Chyllid) er mwyn nodi'n glir sut caiff y Gronfa ei rheoli'n lleol a hyrwyddo manteision ac effeithiau'r buddsoddiad yn lleol. Dylai'r cynllun, ymhlith pethau eraill, gyfleu sut mae cyllid y Gronfa'n cael ei ddefnyddio; nodi amrywiaeth o sianeli cyfathrebu y byddwch hi'n eu defnyddio i hyrwyddo'r Gronfa-a dangos prosiectau llwyddiannus; sut mae cael gafael ar yr arian a sut gall rhanddeiliaid gyfrannu at y broses. Darperir templed yn Atodiad F i'n helpu ni i ddatblygu dull cyson o gynllunio cyfathrebiadau. Dylid rhannu'r cynllun cyfathrebu â Llywodraeth Cymru.
162. Rhaid i chi gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar yr holl gyhoeddusrwydd, pob datganiad i'r wasg a'r holl deunydd marchnata a gynhyrchir mewn perthynas â'r cyllid a'r prosiectau cysylltiedig. Mae'n rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath gydymffurfio â chanllawiau cymeradwy Llywodraeth Cymru ar [Frandio](#).
163. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Gronfa bob blwyddyn i hyrwyddo gweithgarwch y rhanbarthau ac effeithiau'r gronfa. Bydd yn ofynnol i fyrddau partneriaeth ranbarthol ddarparu gwybodaeth fanwl ychwanegol i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

PENNOD 5: CYFLWYNO ADRODDIADAU I LYWODRAETH CYMRU

164. Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig er mwyn rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru fod dyraniadau'r Gronfa yn cael eu defnyddio'n llwyr wrth ddarparu gwasanaethau integredig ac ataliol effeithiol.
165. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sicrhau bod ganddynt drefniadau monitro cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod cynlluniau sy'n cael eu cyllido drwy'r Gronfa yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar amser a chan gyd-fynd â'r gyllideb.

166. Bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanbarthau eraill i ddatblygu dulliau monitro a gwerthuso cyson sy'n darparu tystiolaeth a naratif glir ar y manteision a'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y Gronfa.

Adrodd ar Refeniw'r Gronfa

167. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddarparu adroddiadau cyllid a chynnydd bob chwarter yn amlinellu gwariant refeniw y Gronfa hyd yma yn erbyn y gyllideb, ynghyd â statws cyflwyno cyffredinol y prosiect (gan ddefnyddio offeryn BRAG). **Darperir templed adrodd yn Atodiad C, ac mae'n rhaid i ranbarthau ddefnyddio'r templed hwn HEB wneud unrhyw addasiad i'w gynllun.** Mae dull cynnwys adrodd ledled Cymru yn galluogi llywodraeth Cymru i ddadansoddi gwariant er mwyn rhoi gwybod i Weinidogion a rhanddeiliaid sut mae'r Gronfa yn cael ei defnyddio i gefnogi grwpiau poblogaeth allweddol. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu adroddiad blynyddol y Gronfa. **Cyhoeddir fersiwn wedi'i diweddarau o'r templed cyfredol cyn y flwyddyn ariannol newydd i ystyried y newid mewn perthynas â WCCIS a llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth, ar y pen uchaf.**
168. Mae'n ofynnol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddarparu adroddiadau bob 6 mis i ddangos effeithiau, canlyniadau a gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau sy'n cael eu cyllido.
169. Rhaid i bob adroddiad fod yn gronnus a chrynhof i sefyllfa gyffredinol ar bwynt penodol yn y flwyddyn ariannol mewn perthynas â phobl fregus a phobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth, gofalmwr, plant sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal, sy'n derbyn gofal neu sydd wedi eu mabwysiadu.
170. Dylid anfon diweddariadau chwarterol ar y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn uniongyrchol at Arweinydd ASD Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: autismwales@wlg.gov.uk. Dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol gadarnhau i Lywodraeth Cymru eu bod wedi gwneud hyn.
171. Yn ogystal, bydd gofyn i fyrddau partneriaeth rhanbarthol ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i gyfrannu at adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyflenwi'r Gronfa yng Nghymru a'i heffaith.

Adrodd ar Gyfalaf y Gronfa

172. Mae trefniadau monitro a gwerthuso effeithiol yn bwysig i roi sicrwydd bod arian cyfalaf y Gronfa yn cael ei ddefnyddio'n llawn i ategu darpariaeth tai a llety integredig ac ataliol. Bydd hyn hefyd yn helpu i lywio buddsoddiadau cyfalaf y Gronfa yn y dyfodol.

173. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod ganddynt drefniadau monitro cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod cynlluniau sy'n cael eu cyllido drwy gyllid cyfalaf y Gronfa yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar amser a chan gyd-fynd â'r gyllideb.
174. Rhaid sefydlu trefniadau gwerthuso hefyd i nodi a dangos effaith, yn ogystal â'r defnydd priodol ac effeithlon o arian cyhoeddus.
175. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu adroddiadau ar weithgarwch cyfalaf y Gronfa bob chwarter. Ni dderbynnir ffurflenni anghyflawn. Rhaid i'r adroddiad fod yn gronnus a chrynhof sefyllfa gyffredinol ar bwynt penodol yn y flwyddyn ariannol. Cysylltwch â'ch arweinydd ar gyfer cyfalaf y Gronfa i sicrhau eich bod yn defnyddio'r ffurflenni mwyaf cyfredol.

Gwerthuso

176. Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig fel cronfa i **sbarduno a/neu beilota** modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal sy'n hyrwyddo'r prif egwyddorion sef atal, cydgynhyrchu ac integreiddio. Mae gwerthuso a dysgu wrth wraidd y gronfa hon i sicrhau y gellir datblygu modelau, systemau ac arferion effeithiol, a'u dyblygu/eu prif ffrydio.
177. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o raglen refeniw'r ICF, a disgwylir i'r canfyddiadau fod ar gael yn ystod haf 2021. Bydd y gwerthusiad, yn ogystal â'r gwerthusiad parhaus o'r Gronfa Trawsnewid, yn helpu i lywio trefniadau ariannu rhanbarthol yn y dyfodol ar ôl mis Mawrth 2022.
178. Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sefydlu eu trefniadau gwerthuso eu hunain er mwyn nodi effaith a dangos tystiolaeth o'r effaith honno, yn unol â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, yn ogystal â'r ffaith bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol yn gyffredinol.
179. Bydd gofyn i ranbarthau gynllunio a chynnal **gwerthusiad trylwyr o bob prosiect** er mwyn sicrhau bod modd dysgu a rhannu gwersi allweddol a bod modd i fodelau llwyddiannus gael eu **ehangu, cyflymu a/neu brif ffrydio**.
180. Bydd gofyn i ranbarthau gynnal gwerthusiad sy'n edrych ar bedwar maes allweddol;
- **Effaith** - Pa ganlyniadau a gyflawnwyd, a pha wahaniaeth a wnaed gan y prosiect?
 - **Proses** - Sut mae'r prosiect wedi cefnogi egwyddorion allweddol fel integreiddio, cydgynhyrchu, gwerth cymdeithasol?
 - **Economaidd** - Beth yw costau a manteision y prosiect a pha gostau y llwyddwyd i'w hosgoi?

- **Ansoddol** - Beth yw profiadau'r defnyddwyr gwasanaethau, staff a chymunedau o'r prosiect?
181. Mae'n bwysig bod rhanbarthau'n ystyried sut y gall dysgu **o brosiectau a ariennir drwy'r Gronfa ddylanwadu, llunio a hyd yn oed disodli modelau ac arferion darparu gwasanaethau craidd cyfredol.**
182. Ar ôl gwerthuso prosiectau n ofynnol i i ranbarthau ddangos y camau nesaf a allai gynnwys;
- Buddsoddi mewn cam datblygu newydd i'r prosiect (y Gronfa)
 - Parhau â'r prosiect drwy gyllid grant gwahanol
 - Prif ffrydio'r model cyflawni (cronfa graidd)
 - Ehangu ac uwchraddio'r model (y Gronfa Trawsnewid)
 - Cau a gadael y prosiect mewn ffordd ddiogel.
183. Dylid asesu effaith ac adrodd ar ganlyniadau gan ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd **yn Seiliedig ar** Ganlyniadau . O'r herwydd, bydd yn ofynnol i bob prosiect ddatblygu data meintiol ac ansoddol i **ddangos 'Faint'** y maent wedi'i wneud, **'Pa mor Dda'** y maent wedi'i wneud a **'Pa wahaniaeth'** y mae wedi'i wneud i ddefnyddwyr gwasanaethau.
184. Bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol y ffordd orau o gefnogi rhanbarthau i werthuso a mesur effeithiau eu prosiectau a byddwn yn parhau i ddefnyddio mecanweithiau fel Cymunedau Ymarfer a Sesiynau Rhwydwaith i rannu'r dysgu ledled Cymru.
185. Dylai adroddiadau monitro:
- **ddefnyddio Atodiad C**, gan gyflwyno gwybodaeth yn gryno ac yn annibynnol;
 - bod yn gronnus o ran eu natur a chofnodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ôl y canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Buddsoddi Refeniw ddechrau'r flwyddyn;
 - tynnu sylw at arian cyfatebol o raglenni eraill, e.e. ETTF, I2S;
 - cael eu rhannu ag arweinwyr eraill y Gronfa ledled Cymru i hyrwyddo dysgu a datblygu arferion da.
186. Croesewir astudiaethau achos i egluro cynnydd wrth gyflwyno'r Gronfa, yn benodol i arddangos achosion o arloesi ac arferion da. Fodd bynnag, dylai enghreifftiau ymwneud yn bennaf â chynlluniau blaenllaw neu enghreifftiol, dylent fod yn berthnasol a dylid eu hategu â thystiolaeth gadarn, ffeithiol o ganlyniadau. Dylid defnyddio'r templed yn Atodiad G i sicrhau dull cyson.

AMSERLENNI ADRODD AR REFENIW'R GRONFA:

Erbyn	Math o adroddiad	Cyfnod yr adroddiad
31 Gorffennaf 2021 fan bellaf	Adroddiad Chwarterol 1af (statws y prosiect a chyllid)	Ebrill - Mehefin gan gynnwys y misoedd hynny
31 Hydref 2021 fan bellaf	2il Adroddiad Chwarterol (cyllid a chanlyniadau)	Ebrill - Medi gan gynnwys y misoedd hynny
31 Ionawr 2022 fan bellaf	3ydd Adroddiad Chwarterol (cyllid a statws prosiect)	Ebrill - Rhagfyr gan gynnwys y misoedd hynny
30 Ebrill 2022 fan bellaf	4ydd Adroddiad Chwarterol (cyllid a chanlyniadau)	Ebrill - Mawrth gan gynnwys y misoedd hynny

187. All deadlines are required to be met as the information provided in the returns is used to inform Ministers and the Welsh Government's ICF Board. Additional information may be required at any time in the financial year, including a projected outturn statement. Failure to meet deadlines may result in remedial action by Welsh Government.
188. Rhaid i bob adroddiad chwarterol gael ei lofnodi a'i gymeradwyo yn unol â'r broses ar gyfer y Cytundeb Ysgrifenedig a nodir ym [Mhennod 4](#). Ni fydd adroddiadau heb eu llofnodi yn cael eu derbyn.

RHAGOR O WYBODAETH AC ATODIADAU

Dylid anfon pob ymholiad ynglŷn â'r canllawiau hyn i Flwch Post y Gronfa:

PartnershipandIntegration@gov.wales ac ar gyfer cyfalaf ICFCapital@gov.wales

Gall yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Atodiadau newid. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau perthnasol pan fo'n briodol:

ATODIADAU REFENIW A DEMENTIA

Atodiad A - Adran 15(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – rhestr o'r dibenion

Atodiad B – Templed ar gyfer Cytundebau Ysgrifenedig

Atodiad C - Templed adrodd ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Refeniw

Atodiad D - Dyraniadau cyllid 2021-22

Atodiad E – Ffurflen Cynnig Prosiect y Gronfa

Atodiad F- Templed Cynllun Cyfathrebu

Atodiad G – Templed astudiaeth achos

Y GRONFA GOFAL INTEGREDIG: ATODIADAU REFENIW A DEMENTIA

Atodiad A

Atal

Mae Adran 15 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ataliol y maent hwy'n eu hystyried y byddant yn sicrhau'r dibenion canlynol:

- a) Cyfrannu tuag at atal neu ohirio datblygiad anghenion am ofal a chymorth;
- b) Lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath
- c) Hyrwyddo magwraeth plant gan eu teuluoedd, lle mae hynny'n gyson â llesiant plant;
- d) Lleihau'r effaith mae eu hanableddau'n ei chael ar bobl anabl;

e) Cyfrannu at atal pobl rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso;

Lleihau'r angen am:

- i. achosion ynghylch gorchmynion gofal neu oruchwyllo dan Ddeddf Plant 1989;
- ii. achosion troseddol yn erbyn plant;
- iii. unrhyw achos teuluol neu achos arall mewn perthynas â phlant a allai arwain iddynt gael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol; neu
- iv. achosion dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys yng nghyswllt plant;

g) Annog plant i beidio â throseddu;

h) Osgoi'r angen i blant gael eu lleoli mewn llety diogel; a

i) Galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.

CYTUNDEB YSGRIFENEDIG Y BWRDD PARTNERIAETH
RHANBARTHOL (REFENIW A CHYFALAF)

Rhaid i'r Datganiad Ysgrifenedig gael ei gymeradwyo gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

CYFNOD Y CYTUNDEB YSGRIFENEDIG A'R DYDDIAD ADOLYGU

MANYLION Y PARTNERIAID A'R PARTNER ARWEINIOL

Enwau, rolau a chyfrifoldebau unigolion o fewn y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ac yn benodol mewn perthynas â rheoli'r Gronfa Gofal Integredig.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU'R PARTNERIAID

Nodwch ymrwymiad yr holl bartneriaid i gydweithio i reoli a chyflwyno'r Gronfa yn effeithiol rhaglen gan gynnwys ymrwymiad i fodloni'r terfynau amser a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a cheisiadau am wybodaeth yn ystod y flwyddyn, a sut y bydd y bwrdd partneriaeth yn gwneud cysylltiadau â chyrff partneriaeth allweddol eraill megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

STATWS Y DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Y gofyniad yw cael cytundeb ar y cyd rhwng y partneriaid ynghylch rheoli a chyflawni'r Gronfa. Nodwch a yw'r Datganiad Ysgrifenedig yn un sy'n rhwymo ai peidio.

TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Nodwch pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith i helpu i gyflenwi'r Gronfa yn unol â chanllawiau 2020-21. Disgrifiwch y trefniadau partneriaeth ffurfiol gan gynnwys pa mor aml y cymhelir cyfarfodydd a phwy sy'n cael eu gwahodd. Cynhwyswch ddiagram strwythurol i ddangos y broses lywodraethu a phenderfynu ar gyfer y Gronfa. **Rhaid** i hwn gynnwys manylion y trefniadau craffu sydd yn eu lle i sicrhau bod cyrff sofran perthnasol yn gallu craffu ar benderfyniadau'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol o ran cynllunio, buddsoddi a chyflawni mewn perthynas â rhaglen y Gronfa.

Y SECTOR GWERTH CYMDEITHASOL

Nodwch sut y bydd y sector Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chyflenwi rhaglen y Gronfa a sut y gall sefydliadau'r sector gwerth cymdeithasol gael gafael ar gyllid y Gronfa. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod y bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad i fuddsoddi lleiafswm o 20% yn y sector gwerth cymdeithasol fel y nodir yn y canllawiau. Disgrifiwch sut y bydd y trefniadau ar gyfer ariannu'r sector gwerth cymdeithasol yn cadw at [Gynllun a chod ymarfer Trydydd Sector](#)

Llywodraeth Cymru.

TREFNIADAU DIWYDRWYDD DYLADWY

Nodwch fod systemau priodol yn eu lle i gynnal gwiriadau “diwydrwydd dyladwy” cyn defnyddio unrhyw ran o’r cyllid i ddarparu grant neu i gaffael unrhyw nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partion.

STRATEGAETH RHEOLI RISG

Disgrifiwch y trefniadau sydd yn eu lle i asesu a rheoli risg o fewn y Gronfa Gofal Integredig a sut y bydd camau lliniaru yn cael eu cymryd i reoli risg, gan gynnwys y broses ar gyfer rheoli tanwariant o fewn y flwyddyn yn effeithiol.

DATRYD ANGHYDFOD

Manylion y trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio ac ar gyfer datrys anghydfod – gan gynnwys eglurhad o’r trefniadau ar gyfer datrys anghytundeb o fewn y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

CYFATHREBU A DYSGU GWERSI AR Y CYD

Disgrifiwch ymrwymiad y partneriaid i ddull rhagweithiol o chwilio am gyfleoedd i rannu arferion da ac arloesedd. Dywedwch sut y byddwch yn cyfathrebu â rhanddeiliaid ac yn darparu tryloywder gwirioneddol am y buddsoddiad ac am effeithiau rhaglen y Gronfa Gofal Integredig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

GWERTHUSO

Disgrifiwch sut y bydd prosiectau’n cael eu monitro, eu hadolygu a’u gwerthuso a sut a phryd y bydd penderfyniadau’n cael eu gwneud am y camau nesaf (ee prif-ffrydio/strategaeth ymadael).

LLOFNODWYR

Rhaid i'r Datganiad Ysgrifenedig gael ei lofnodi'n unol â gofynion Canllawiau'r Gronfa Gofal Integredig 2020-21, Pennod 4

Atodiad C

Templed Adrodd Cynllun Buddoddi Refeniw y Gronfa Gofal Integredig – taenlen excel yw hon a ddarperir ar wahân i'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

0	1	2	3	4	5	6	7
	Y Gronfa Gofal Integredig – Pobl Hŷn	Y Gronfa Gofal Integredig – Anabledau dysgu, plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr	Y Gronfa Gofal Integredig – Plant ar ymylon gofal / mewn gofal	Y Gronfa Gofal Integredig (Dyraniadau Awstistaeth)	Llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ar y pen uchaf *	Dementia**	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Gwent	7.162	3.826	2.870	0.458		1.611	15.928
Y Gogledd	9.567	4.251	3.189	0.652		2.153	19.812
Caerdydd a'r Fro	4.895	2.879	2.159	0.367		1.101	11.402
Cwm Taf Morgannwg	5.521	3.214	2.411	0.367		1.242	12.756
Gorllewin Cymru	5.550	2.426	1.819	0.398		1.249	11.442
Bwrdd Iechyd Powys	2.080	0.814	0.610	0.337		0.468	4.309
Gorllewin Morgannwg	5.224	2.590	1.942	0.398		1.175	11.329
Cyfanswm	40.000	20.000	15.000	2.977	2.000	9.000	88.977
				77.977			

Bydd £77.977m yn cael ei ddyrannu drwy brif lythyr dyrannu'r GIG.

* £Bydd £2m yn cael ei gynnal yn ganolog a'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn.

**Caiff cyllid Dementia ac WCCIS ei ddal yn ganolog o fewn Llywodraeth Cymru a'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn.



Ffurflen Cynnig Prosiect Cronfa Gofal Integredig - Refeniw

Rhanbarth:	Enw prosiect y Gronfa:
Dyddiad dechrau'r prosiect:	Cyf. LIC:
Dyddiad cwblhau'r prosiect:	
A yw'r prosiect hwn yn gysylltiedig â phrosiect cyfalaf y Gronfa? Ydi/Nac ydi * <i>dilëwch fel y bo'n briodol</i>	
A yw'r prosiect hwn yn gysylltiedig â chyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia? Ydi/Nac ydi * <i>dilëwch fel y bo'n briodol</i>	

Beth yw prif sylw (1) ac ail (2) sylw'r prosiect rydych chi'n ei gynnig? * nodwch 1 a 2 fel y bo'n briodol

Prosiectau plant/gofalwyr ifanc	Prosiectau Oedolion/Gofalwyr	Meithrin Gallu/Seilwaith Rhanbarthol
Gwybodaeth/Cyngor/Codi ymwybyddiaeth	Gwybodaeth/Cyngor/Codi ymwybyddiaeth	Datblygu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Mynediad at wasanaethau/un pwynt mynediad/trafnidiaeth	Mynediad at wasanaethau/un pwynt mynediad	Datblygu/hyfforddi gweithlu rhanbarthol
Asesu a diagnosis	Asesu a diagnosis	Rheoli a gwerthuso'r Rhaglen Ranbarthol
Presgripsiwn Cymdeithasol	Presgripsiwn Cymdeithasol	Cynllunio a chomisiynu rhanbarthol/integredig
Cymorth ac atal yn gynnar	Cymorth ac atal yn gynnar	Cymorth Rhanbarthol ar gyfer Ymgysylltu â'r Sector Gwerth Cymdeithasol
Iechyd a llesiant emosiynol	Iechyd a llesiant emosiynol/Unigrwydd ac arwahanrwydd	Cymorth rhanbarthol i ymgysylltu â dinasyddion/gofalwyr
Cymorth ymylon gofal	Aros gartref/dychwelyd gartref	Arall - (Rhowch fanylion isod)
Ymagwedd Cynadledda Grŵp Teulu	Timau Cymunedau Integredig	
Ail-uno teuluoedd	Camu i fyny/i lawr o'r ysbyty	
Ymyriad therapiwtig	Gofal canolraddol/Llwybrau	
Llety newydd/ atebion preswyl	Llety newydd/ Atebion preswyl	
Arall (Rhowch fanylion isod)	Arall (Rhowch fanylion isod)	

Disgrifiad o Brosiect y Gronfa (*disgrifiad byr yn defnyddio'r model damcaniaeth newid*):

- 1 - Beth yw'r broblem rydych chi'n ceisio ei datrys?
- 2 - Pa ganlyniad/newid tymor hir ydych chi'n gobeithio ei gyflawni?
- 3 - Pwy yw eich cynulleidfa allweddol?
- 4 - Sut byddwch chi'n eu cyrraedd?
- 5 - Pa adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo?
- 6 - Pa weithgareddau fydd yn achosi'r newid?

Sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael â'ch asesiad o anghenion y boblogaeth a'r cynllun ardal?

Pa lefel o 'atal/ymyrraeth' (continwwm) sy'n disgrifio eich prosiect orau? **ticiwch fel y bo'n briodol*

Hunan-gymorth, gwybodaeth a chynghor	Cymorth a chefnogaeth yn gynnar	Cymorth Dwys	Ymyriad Arbenigol

Costau Prosiect

BLWYDDYN UN	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Cyfanswm y Gost
Costau cyflawni uniongyrchol -					
<i>Staffio</i>					
<i>Gorbenion (gwres, golau, rhent ac ati)</i>					
<i>Costau adnoddau/gweithgareddau</i>					
<i>Cyfarpar/TG</i>					
BLWYDDYN DAU	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Cyfanswm y Gost

Costau cyflawni uniongyrchol -					
<i>Staffio</i>					
<i>Gorbenion (gwres, golau, rhent ac ati)</i>					
<i>Costau adnoddau/gweithgareddau</i>					
<i>Cyfarpar/TG</i>					

Cyflawni'r Prosiect

Partneriaid cyflawni	
Awdurdod Lleol	
Bwrdd iechyd	
Trydydd Sector/Sector Gwerth Cymdeithasol	
Sector preifat/annibynnol	
Cymdeithas dai/Landlord	
Cymdeithasol Cofrestredig	
Arall (Rhowch fanylion isod)	

Deiliad cyllideb y prosiect	
Awdurdod Lleol	
Bwrdd iechyd	
Trydydd Sector/Sector Gwerth Cymdeithasol	
Sector preifat/annibynnol	
Cymdeithas dai/Landlord	
Cymdeithasol Cofrestredig	
Arall (Rhowch fanylion isod)	

Ôl troed daearyddol y prosiect	
Rhanbarthol	
Isranbarthol	
Rhanbarthau lluosog	
Awdurdod Lleol	
Cymuned leol	

Buddiolwyr y prosiect (ticiwch y blychau fel y bo'n briodol):

Prif fuddiolwyr	
Pobl hŷn	
Pobl ag anableddau dysgu	
Plant ag anghenion cymhleth	
Plant sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal	
Plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant wedi eu mabwysiadu	
Gofalwyr	
Gofalwyr Ifanc	
Pobl â dementia	

Buddiolwyr eilaidd	
Pobl hŷn	
Pobl ag anableddau dysgu	
Plant ag anghenion cymhleth	
Plant sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal	
Plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant wedi eu mabwysiadu	
Gofalwyr	
Gofalwyr Ifanc	
Pobl â dementia	

Buddiolwyr eraill	
Pobl hŷn	
Pobl ag anableddau dysgu	
Plant ag anghenion cymhleth	
Plant sydd mewn perygl o orfod derbyn gofal	
Plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant wedi eu mabwysiadu	
Gofalwyr	
Gofalwyr Ifanc	
Pobl â dementia	

Egwyddorion cynllunio'r prosiect(ticiwch y blychau fel y bo'n briodol):

Pa un o nod(au) pedwarplyg 'Cymru Iachach' y mae'r prosiect hwn yn mynd i'r afael ag ef yn bennaf ?	
Gwella iechyd a llesiant	
Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	
Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol	
Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy	

Pa rai o 'ddeg egwyddor cynllunio cenedlaethol' Cymru Iachach fydd y prosiect yn mynd i'r afael â nhw?	
Atal ac ymyrryd yn fuan	
Diogelu	
Annibyniaeth	
Llais	
Personol	
Di-dor	
Gwerth uwch	
Seiliedig ar dystiolaeth	
Datblygu	
Trawsnewid	

Gyda llais a chyd-gynhyrchu fel egwyddorion allweddol, dywedwch wrthym pwy rydych chi wedi ymgysylltu â nhw wrth gynllunio eich prosiectau	
Defnyddwyr gwasanaethau (oedolion)	
Defnyddwyr gwasanaethau (Plant/pobl ifanc)	
Gofalwyr	
Gofalwyr ifanc	
Y gweithlu	
Gwerth cymdeithasol/3ydd sector	
Aelodau o'r gymuned	
Eraill:	

Canlyniadau ac effeithiau'r prosiect

Pa ddangosyddion/mesurau ar lefel y boblogaeth mae eich prosiect yn ceisio mynd i'r afael â nhw? * dewiswch o'r fframwaith rheoli perfformiad/canlyniad cenedlaethol

Dywedwch wrthym sut byddwch chi'n mesur/deall effeithiau eich prosiect?

Faint? (allbynnau)	Pa mor dda? (ansawdd)
Gwahaniaeth a wnaed? (effaith)	

Dywedwch wrthym sut rydych chi'n bwriadu gwerthuso'r agweddau a ganlyn ar eich prosiect (cyfeiriwch at ganllawiau'r Gronfa)

Gwerthuso Effaith (Sut byddwch chi'n mesur/deall y canlyniadau a gyflawnwyd gan eich prosiect?)	
Gwerthuso'r Broses	

<i>(Sut byddwch chi'n gwerthuso'r newidiadau i'r system a phrosesau a gyflawnir gan eich prosiect e.e. integreiddio, cyd-gynhyrchu, gwerth cymdeithasol?)</i>	
Gwerthuso Economaidd <i>(Sut byddwch chi'n gwerthuso'r buddion cost/osgoi costau a gyflwynir gan eich prosiect?)</i>	
Gwerthuso Ansoddol <i>(Sut byddwch chi'n crynhoi profiadau defnyddwyr gwasanaethau/staff/cymunedau?)</i>	

Strategaeth ymadael

Dywedwch wrthym am eich strategaeth ymadael ar gyfer y prosiect (ar ôl 2021):

Manylion cyswllt y prosiect

Cyswllt allweddol y prosiect (enw):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Atrodiad F**Templed Strategaeth Cyfathrebu'r Gronfa Gofal Integredig (i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Gorffennaf 2019)**

Rhanbarth:

Arweinydd Cyfathrebu a manylion cyswllt:

Bydd y Strategaeth gyfathrebu hon yn darparu un naratif gyffredinol i ddisgrifio ein cyfeiriad cyfathrebu a datrysiadau i hyrwyddo'r Gronfa Gofal Integredig yn ein rhanbarth, ac i'n cymysgedd arbennig o gynulleidfaoedd; Llywodraeth Cymru, staff, rhanddeiliaid a chyrff ac unigolion sydd â buddiant, ac yn bwysicaf oll, y dinasyddion a fydd yn elwa ar y prosiectau a'r gwasanaethau hyn. Dylid ei llenwi yn unol â chanllawiau'r Gronfa, adrannau 145-148)

1. **Nodau ac amcanion y strategaeth gyfathrebu**: Beth fydd y gwaith cyfathrebu'n ei gyflawni? Beth fydd llwyddo yn ei olygu?
Amcanion CAMPUS

2. **Cyd-destun strategol**: Sut mae'r strategaeth gyfathrebu hon yn cysylltu ag amcanion busnes neu flaenoriaethau ein partneriaeth?
A oes gwaith cyfathrebu blaenorol y gallwn ni ei ddefnyddio fel sail?

3. **Cynulleidfa: Pwy yw ein cynulleidfaoedd?** – mae angen ystyried hyn yn fanwl, ac nid dim ond diffiniadau eang

4. **Negeseuon amlwg**: Beth yw'r negeseuon allweddol y dymunwn eu cyfathrebu am ein partneriaeth/prosiectau?

5. **Gweithredu:** Sut byddwn ni'n cyflwyno'r ymgyrch gyfathrebu a pha dactegau/cyfryngau y byddwn ni'n eu defnyddio? Gofynion brandio a/neu anghenion penodol gan gyllidwyr e.e. Brandio Llywodraeth Cymru)?

6. **Adnoddau:** Beth yw'r gyllideb a pha adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth hon?

I'W GWBLHAU AR ÔL GWEITHREDU'R STRATEGAETH/YMGYRCH

7. **Gwerthuso ein strategaeth/ymgyrch gyfathrebu:** Sut byddwn ni'n deall effeithiau, yn mesur llwyddiant ac yn llywio ymgyrchoedd yn y dyfodol?

Mewnbynnau – Yr hyn a wnaethom i gynllunio'r strategaeth/ymgyrch

Allbynnau – y cyfathrebu a ddarparwyd gennym a'r gynulleidfa darged a gyrrhaeddwyd.

Canlyniadau - effaith ein gweithgarwch ar y gynulleidfa darged mewn perthynas â'ch amcan cyfathrebu

Y GRONFA GOFAL INTEGREDIG – TEMPLED ASTUDIAETH ACHOS

Trosolwg o'r Prosiect/Gwasanaeth (i'w gymryd o'r ffurflen cynnig prosiect)

Arweinydd y prosiect a manylion cysylltu:	
Enw'r prosiect/gwasanaeth:	
Trosolwg/crynodeb o'r prosiect:	
Beth oedd y broblem y sefydlwyd y prosiect i'w datrys?	
Beth oedd y canlyniad/newid tymor hir yr oedd y prosiect yn gobeithio'i gyflawni?	

Pwy oedd i fod i gael budd o'r prosiect/gwasanaeth hwn?	
---	--

Datganiad effaith – enghraifft o achos penodol

Pwy gafodd fudd yn yr enghraifft benodol hon?	
Beth oedd y mater/problem penodol yr oeddech yn ceisio'i ddatrys yn yr achos hwn?	
Sut daethant yn rhan o'r prosiect/gwasanaeth hwn?	
Sut wnaeth y prosiect/gwasanaeth wahaniaeth? <i>Beth oedd y camau/gweithgareddau a gynhaliwyd?</i>	
Pa ganlyniadau/newidiadau a gafodd eu cyflawni?	

<i>Beth oedd y canlyniad i'r defnyddiwr gwasanaeth? Pa wahaniaeth wnaeth yr ymyriadau?</i>	
Dyfyniadau/Adborth <i>Darparwch ddyfyniad uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaeth. Beth ddywedodd y person am y gwasanaeth a dderbyniwyd a'r gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud iddo ef neu hi?</i>	
Y camau nesaf – sut rydych chi'n bwriadu datblygu hyn ymhellach?	